# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 551 · **Mawrth 2024** · 70c



# Dydd Gŵyl Dewi

Disgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen yn dathlu mewn steil, hefo Rob Page (hyfforddwr tim pel droed Cymru).







**Yn y rhifyn yma**

Mwy o luniau Dydd Gŵyl Dewi 16

Ffarwel i Mabinogion 3



Cynlluniau cyffrous Yr Hen Bost 25



# Llais Ogwan

**Rhif 551**
Mawrth 2024

**Panel Golygyddol**

**Ieuan Wyn**
(Ffôn 600297)
ieuanwyn01@gmail.com
**Lowri Roberts**
(Ffôn 07815 093955)
l.roberts11@btinternet.com
**Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com
**Dewi A Morgan**
(Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk
**Trystan Pritchard**
(Ffôn 07402 373444)
trystanrp1@gmail.com
**Walter a Menai Williams**
(Ffôn 601167)
waltermenai@yahoo.co.uk
**Rhodri Llŷr Evans**
(Ffôn 07713 865452)
Rhodri.llyr.evans@gmail.com
**Owain Evans**
(Ffôn 07588 636259)
owain.evans1@gmail.com
**Carwyn Meredydd**
(Ffôn 07867 536102)
carwynian@hotmail.com
**Rhys Llwyd**
(Ffôn 01248 601606) rmll42@live.co.uk
**Catrin Wager**
(Ffôn 07366 418318)
catrinwager@yahoo.co.uk

**Swyddogion**

**CADEIRYDD**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

**TRYSORYDD:**
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 / 07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com

## Y Llais drwy'r post:

Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
**Catrin Wager.**

Y golygydd ym mis **Ebrill** fydd
**Carwyn Meredydd,**
20 Rhes Ogwen, Bethesda, LL57 3AY.
07867 536102
carwynian@hotmail.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 30 Mawrth** os gwelwch yn dda.
Casglu a dosbarthu **Nos Iau, 18 Ebrill,** yn llawr uchaf Canolfan Cefnfaes am 6.45

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â swyddfa Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru, Bangor (01248 353604).

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
**Gareth Llwyd** – 601415
**Neville Hughes** – 600853

## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain**
Yn anffodus, oherwydd cynnydd aruthrol diweddar yng nghostau postio, 'rydym wedi cael ein gorfodi i godi ein pris o'r £27 arfaethedig i £35 am y flwyddyn 2024.

**Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwan?**

Cysylltwch â **Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

# Dyddiadur y Dyffryn

**Mawrth**
18 Te Bach. Festri Carmel Llanllechid. 2.30 – 4.00.
23 Bore Coffi Trigolion GASA. Festri Jerusalem. 10.00 – 12.00.
25 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem am 10.30.
26 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.

**Ebrill**
06 Bore Coffi Plaid Cymru. Cefnfaes (Llawr Uchaf). 10.00 – 12.00.
08 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem am 10.30.
09 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.
11 Cymdeithas Jerusalem. Y Parchg. Wyn Roberts (Elvis). Festri am 7.00.
13 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.00.
18 Noson Gasglu a Dosbarthu Llais Ogwan. Llawr Uchaf Cefnfaes am 6.45.
22 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem am 10.30.
20 Dathlu Penblwydd Ysgol Rhiwlas yn 150 oed. 1.00 – 3.00.
20 Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Cefnfaes (Llawr Uchaf). 10.00 – 12.00.
23 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.
30 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.

**Mai**
02 Etholiad Comisynydd Heddlu. 7yb – 10yh.
11 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.00.

## CLWB CYFEILLION

**Gwobrau Mawrth**
£30.00 (56) Ann Evans, Penisarwaen.
£20.00 (130) Wynne ap Iorwerth, Mynydd Llandygai.
£10.00 (111) Gwen Davies, Tanysgrafell Isaf.
£5.00 (59) Ann T. Jones, Tregarth.

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £5.50 | Dr. Elwyn Hughes, Ystradgynlais. |
| £2.30 | Wendy Dore, Garneddwen. |
| £12.30 | Annwen, Bryn Caseg. |
| £2.30 | Ronald Evans, 'Rynys, Rachub. |
| £2.30 | Selwyn Jones, Bron Arfon, Rachub |
| £12.30 | Stephen a Michelle, Ffordd Llanllechid, Rachub. |
| £20.00 | Er cof am Owie Williams, Bryn Owen, oddi wrth y teulu. |
| £5.00 | Ann T. Jones, Tal y Cae, Tregarth. |

**Diolch yn fawr**






"Diolch am flynyddoedd o wasanaeth i'r gymuned a llenwi bolia'r fro. Dymuniadau gorau i ti Eirian a diolch i Rhian a pawb arall sydd di bod yna ar y daith"
**Caren Brown, Gerlan**



"Diolch am bwydo fi pan o'n i'n ifanc! Pob lwc"
**Ben Morrison, Wrecsam (Bethesda gynt)**

# Diolch a ffarwel i Mabinogion

"Gobeithio y gwnewch joio eich ymddeoliad. Colled fawr i Pesda, sglodion fwya blasus dwi wedi blasu"
**Freda Evans, Pwllheli**

Ganol Chwefror, daeth y newyddion trist gan Eirian Williams fod siop sglodion "Y Mabinogion" yn cau.

Yn gwasanaethu Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau ers blynyddoedd lawer, mae Eirian a'r staff wedi cynnig bwyd blasus a chroeso Cymreig i genedlaethau a diolch iddi am hynny.

**Calon drom**

Mewn neges ar y cyfryngau cymdeithasol y daeth y newyddion gan Eirian. Yn ei ffordd ddiymhongar, ymddiheuro i'w chwsmeriaid wnaeth Eirian am y penderfyniad anodd.

"Ma' ddrwg iawn gan fi ond efo calon trist heno fydd y mabinogs ddim yn gorad eto.

"Ma' afiechyd wedi dal fyny efo fi, dwi angen diolch o galon i cwsmeriaid i gyd am y cefnogaeth dros yr holl flynyddoedd. Dyddia hapus a difyr.

"Ma ddrwg iawn gan fi adal cwsmeriaid i lawr. Dwi yn ymddiheuro am hynny – diolch o galon pawb."

**Diolch**

Mewn ymateb i'r cyhoeddiad mae'r doreth o negeseuon yn diolch a dymuno'r gorau i Eirian, ac mae'n dyst i bwysigrwydd "Y Mabinogion" i bobl yr ardal. Dyma flas ohonnyn nhw ar y dudalen hon.

Un o'r rheini ydi Keith Williams, Tafarn y Bull, sydd wedi sefydlu casgliad ymddeoliad i ddiolch i Eirian.

"Mae diwedd cyfnod wedi dod i Eirian yn y Mabinogion, shop chips gora a welodd Bethesda, a seren o berchennog ydi Eirian," meddai.

"Mae Eirian yn ddynas tu hwnt o ffeind, pob tro yn rhoi pawb arall yn gyntaf, cwsmeriaid, teulu, ffrindiau. Eirian ydi y cyntaf i gyfrannu yn hael at elusennau a digwyddiadau lleol, ac wrth ei bodd yn cael rhoi a helpu.

"Mae ein diolch fel pentref yn fawr iawn i Eirian, am ei gwasanaeth a'i charedigrwydd ar hyd y blynyddoedd.

"Felly fel llawer un arall 'da ni yn teimlo ei bod yn amser i ddiolch o galon, a cael talu yn ôl, ac ysgafnu y faich ar yr amser caled yma, ac yn dymuno pob lwc a gwellhad buan iawn i Eirian Mabinogs."

Pan aeth LLais Ogwan i'r wasg, roedd dros £3700 wedi ei gasglu. Gellir cyfrannu at y casgliad drwy chwilio am 'Gofund me' ar gyfer 'Ymddeoliad Eirian Mabinogion'.

Hoffa'r golygydd, a phawb o Llais Ogwan rwy'n siŵr, ddiolch i Eirian, Rhian a'r criw am eu blynyddoedd o waith a bwyd blasus. Mwynhewch eich ymddeoliad Eirian, a brysiwch wella!

Diolch i Carwyn Meredydd, Ogwen 360 am y testun.



"Colled mawr i'r pentre. Service da dros y holl blynyddoedd"
**David Parry**



"Gan ddymuno'r gorau i chi Eirian. Mae gan Wyn atgofion hoff iawn o'r holl fwyd bu i chi ddarparu i'r timau ar ôl gemau peldroed pan oedd yn chwarae, a'r pysgod a sglodion bu i chi baratoi iddo pan oedd yn y chwarel gymaint o flynyddoed yn ôl. Diolch!"
**Linda Hughes, Penybryn**

"Pob lwc Eirian gobeithio newch chi mwynhau eich ymddeol da chi'n haeddu o."
**Val Williams, Friog (Bethesda gynt)**

"Newyddion trist iawn clywed bod Mabinogs yn cau. Gwellhad buan - iechyd yn gynta bob tro - a diolch am y gwasanaeth i'r gymuned! Colled Enfawr."
**Sion Richards**



# Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE (07887624459)
henbarc13@gmail.com

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Rhian Jones , 3 Bron Arfon, Rachub sydd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd.

**Clwb Hanes Rachub**

'Ysgol yr Eglwys, Rachub,rhwng 1874 a 1914' gan Dr. Meirion Davies

Cafwyd dadansoddiad manwl a diddorol 'Daearyddol - Hanesyddol' o lyfr log hen 'Ysgol yr Eglwys' yn Rachub gan Dr. Meirion Davies yng nghyfarfod mis Ionawr o'r Clwb Hanes. Canolbwyntiodd Meirion ar y cyfnod rhwng 1878 a 1909, a'r mudo cyson a fu'n digwydd yn yr ardal yn y blynyddoedd hynny, a adlewyrchwyd yn y llyfrau log. Dywedodd fod pob tudalen (uniaith Saesneg) yn datgelu rhywbeth newydd am sefyllfa'r gymdeithas ar y pryd.

Roedd nifer helaeth o'r problemau'n debyg iawn i'r problemau a wynebir mewn ysgolion heddiw e.e. triwantiaeth, tywydd garw, absenoldebau, gwresogi'r ysgol heb sôn am arolygwyr - a fyddai'n ymweld pob tymor! Ond yn wahanol iawn i'r dyddiau hyn, roedd salwch a diffyg maeth yn effeithio'n drwm ar bresenoldeb yn yr ysgol, yn ogystal â nifer helaeth o farwolaethau plant. Cofnodwyd 25 o farwolaethau yn ysgol Rachub yn ystod y cyfnod hwn!

Wrth gwrs, roedd dwy ysgol yn Rachub ar y pryd - un Ysgol Eglwys a'r llall yn Ysgol Genedlaethol, ac yn aml iawn byddai disgyblion yn symud o'r naill i'r llall – yn enwedig yng nghyfnod y Streic Fawr. "Too many cynffons in this school" oedd sut y dyfynnodd y prifathro un o'r rhieni yn y llyfr log yn ystod cyfnod y Streic. Roedd teuluoedd yn chwalu oherwydd bod tadau yn symud i byllau glo'r De i weithio, a hefyd gwelwyd mudo mawr i'r Amerig i chwilio am fywyd gwell!

Roedd y gwaith ymchwil hwn yn seiliedig ar ystadegau manwl nad oes bosib eu trafod mewn erthygl fechan, ond yn wir, roedd y gynulleidfa (bron i hanner cant mewn nifer) wedi mwynhau a gwerthfawrogi'r cyflwyniad yn fawr. (Gallwch weld rhywfaint o'r ystadegau ar ein gwefan www.clwbhanesrachub.co.uk ) Diolch yn fawr iawn Meirion!

**CLWB HANES RACHUB A LLANLLECHID**

**Nos Fercher, Mawrth 27ain 2024**

**am 7 o'r gloch yn y Clwb Criced a Bowlio.**

**Bydd sgwrs gan**

***Hywel Thomas***

**'Chwalfa Teulu Holland Williams, Crymlyn, 1900 – 1903'**

**CROESO CYNNES!**



**Cadi Iolen efo Dilwyn Pritchard a Marian Jones o Glwb Hanes Rachub a Llanllechid.**

Yng nghyfarfod diweddaraf y clwb hanes bywiog a difyr uchod daeth Cadi Iolen, curadur yr amgueddfa yn Llanberis i roi sgwrs ddifyr tu hwnt i'r aelodau am yr amgueddfa ac am y trysorau o wrthrychau a chelfi sydd wedi eu cadw yno ers i chwarel Dinorwig gau yn niwedd y chwedegau. Sefydlwyd yr amgueddfa fel rhan o Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn fuan wedyn.

Fel brodor o Riwlas a'i theulu â chysylltiadau efo Chwarel y Penrhyn roedd Cadi yn medru dangos y cyfraniad a wnaed gan ardal Bethesda i'r diwydiant llechi. Soniodd am y creiriau a'r gwaith papur oedd ar gael yno yn ymwneud â'r ardal hon. Mewn un rhan o'i sgwrs chwaraeodd dap o lais y diweddar Herbert Evans (Hen Barc) yn sôn am y newid a welodd o yn arferion y caban. Soniai Mr Evans am destun y trafodaethau yn y caban cyn y rhyfel byd diwethaf a nododd fel y newidiodd y testunau hynny o lenyddiaeth, gwleidyddiaeth a diwylliant i drafod rasys ceffylau a pheldroed wrth I'r dynion ddychwelyd o'r fyddin wedi'r rhyfel.

Dangosodd Cadi hefyd luniau o'r llechi cerfiedig cywrain a grëwyd gan chwarelwyr y fro hon ac a gatalogwyd i ddechrau gan Gwenno Caffel o Dregarth.

Noson addysgiadol a difyr tu hwnt ac mae pwyllgor y clwb hanes i'w longyfarch am ddarparu nosweithiau tebyg i hon gyda chymaint o bobl o bob oed yn hapus i droi allan ar noson oer a gwlyb i gael eu difyrru a'u hatgoffa o hanes ein bro.

**Llyfr 'Ardal Rachub'**

Cofiwch hefyd am ein llyfryn 'Ardal Rachub - Tair Taith Fer' sydd ar gael erbyn hyn yn LONDIS Bethesda am £5 y copi. Ceir ynddo ddigon o luniau a phytiau o hanesion cymeriadau ac adeiladau'r ardal. Mwynhewch y teithiau!

**Cyngor Cymuned Llanllechid**

Cynhalwyd cyfarfod mis Chwefror Cyngor Cymuned Llanllechid yn rhithiol ar Nos Iau, Chwefror 8fed.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan yr Is-Gadeirydd Y Cynghorydd Lowri Evans.

Penderfynwyd ar roddion ariannol y flwyddyn 2023-2024. Y derbynwyr fel y canlyn;

Llais Ogwan, Dawns I bawb, Theatr Bara Caws, Clwb Criced a Bowlio Bethesda, Ambiwlans awyr, Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen, Cymdeithas Camera Dyffryn Ogwen, Cyfle Rhyngwladol Girlguiding Cymru, Urdd Gobaith Cymru, Ffermwyr ifanc, Carnifal Bethesda, Cronfa cyfle i bawb Urdd, Radio Ysbyty Gwynedd (RYG), Sioe Frenhinol Sir Caernarfon 2025, Hwb Ogwen.

Mae'r Cyngor yn falch o allu cyfrannu.

Edrychwn ymlaen i groesawu Naomi Jones o Barc Cenedlaethol Eryri i gyfarfod Mis Mawrth i gael diweddariad ar nifer o brosiectau sydd gan y Parc.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Iau 14fed o Fawrth.


**Ein Dyfodol?**
Mae Dr Jenna Tugwell-Allsup, yn byw yn Llwyn Bedw, Llanllechid ac yn wreiddiol o Rachub. Astudiodd Jenna Radiograffeg Ddiagnostig a Delweddu ym Mhrifysgol Bangor yn 2005.

Wedi cyfnod o waith yn adran pelydr-x Ysbyty Gwynedd aeth Jenna i Brifysgol Salford yn rhan amser a chwblhau Meistr mewn Athroniaeth a dilyn wedyn drwy astudio a chwblhau rhaglen Athro mewn Athroniaeth oddi fewn i'r un sefydliad ac yn ei gwblhau yn 2021.

Jenna yw arweinydd ymchwil ac archwilio oddi fewn i faes Radioleg Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, ond mae'r swydd yn cynnwys sawl ffynhonnell o waith lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae ei hymchwil ar hyn o bryd yn y maes deallusrwydd artiffisial (AI) ac mae'n ymchwilio i mewn i fuddion defnyddio'r dull hwn i ddarganfod clefydau yn gynharach.

Mae GIG Cymru yn awyddus i weithredu'r meddalwedd arloesol newydd hwn gydag angen y dystiolaeth o'i fanteision. Yn ddiweddar, bu Jenna yn cydweithio ar draws Cymru ar brosiect i gorff ariannu hyfforddiant y GIG yng Nghymru (AaGIC) er mwyn sicrhau bod mwy o gyfleodd dysgu ar gael yn y dyfodol oddi mewn i ymarfer radiograffeg.

"'Diolch am gymryd diddordeb yn fy ngwaith; hogan leol wedi cael addysg yn Ysgol Llanllechid ac Ysgol Dyffryn Ogwen ydw i rŵan yn gweithio mewn swydd hynod o ddiddorol. Mae pob dydd yn wahanol, dwi'n lwcus gan fy mod mewn proffesiwn a maes sydd yn datblygu yn gyflym iawn ac mae'r dechnoleg yn gallu newid yn gyflym. Dwi wrth fy modd yn dysgu pethau newydd ond hefyd yn hoffi dysgu eraill. Mae gweithio gyda myfyrwyr a staff sydd â diddordeb dysgu am ymchwil yn deimlad gwych."


Dr Jenna Tugwell-Allsuo

**COFIO AMAETHWR.**
Ar 29 Ionawr fe gollodd ardal Llanllechid amaethwr poblogaidd, sef Owen Gwilym Williams, Bryn Owen, Llanllechid, yntau yn 93 mlwydd oed. Bu'n weithiwr caled ar feysydd amaethyddol y Dyffryn ar hyd ei oes gyda ffermydd Corbri, Cae Cymro a Thalysarn yn eu plith. Roedd ganddo atgofion lu am drefn amaethu dros y blynyddoedd. Ym 1966 cafodd ei fferm ei hun, Bryn Eithin cyn symud i Bryn Owen naw mlynedd yn ddiweddarach. Fel y disgwylir roedd ei ddiddordeb a'i wybodaeth ym myd amaeth Dyffryn Ogwen yn enfawr. Cymerodd ddiddordeb mawr ar sut i amaethu ar y Carneddau ac roedd rheolau amaethu y mynydd ar flaenau ei fysedd.

Bu'r angladd yn yr Amlosgfa ym Mangor ar 14 Chwefror dan ofal y Parch Dafydd Coetmor Williams. Anfonwn ein cydymdeimlad at Gwilym, Kevin a Lynwen, a'r teulu oll yn eu profedigaeth. Mae'r teulu am ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a chyfeillgarwch a dderbyniwyd ganddynt dros y cyfnod trist yma, diolch hefyd i Dafydd Coetmor am ei wasanaeth ac i Gareth Williams am ei drefniadau trylwyr.

Ysgrifennodd Gwilym y bennill canlynol er cof am ei dad:

Cewch eto grwydro llethrau serth
A gwarchod diadell gref,
Cewch gwmni Deio, ffyddlon ffrind
I fugeilio praidd y nef.

## CAPEL CARMEL LLANLLECHID


**Cychwyn y daith o ysgoldy Carmel**

Rydan ni'n falch iawn o glywed bod Mrs Keilly Tugwell-Williams wedi dod adref o'r ysbyty yn Lerpwl ar ôl iddi hi gael llawdriniaeth yn ddiweddar. Rydan ni'n dymuno y bydd hi'n dal i wella ac y bydd hi'n cryfhau yn fuan iawn. Rydan ni'n dymuno yn dda a gwellhad buan i'r aelodau sy'n dioddef afiechyd ar hyn o bryd.

**Yr Ysgol Sul**
Derbyniodd y plant a phobl ifanc Clwb Dwylo Prysur rodd oddi wrth yr ysgol Sul sef copi o lyfr diweddaraf Mrs Marian Jones sef 'Ardal Rachub – Tair Taith Fer' sy'n cynnwys darluniau lawer o'r ardal a fydd yn dysgu iddyn nhw am hanes eu cynefin. Diolch i Marian am ei gwaith diwyd iawn wrth gasglu'r holl wybodaeth at ei gilydd. Yn ystod gwyliau hanner tymor yr ysgol, aeth criw ohonom ni'r plant o bob oed ar yr ail daith sydd yn y llyfr, sef Capeli, Eglwys ac Ysgolion Rachub. Mi wnaethom ni gychwyn o ysgoldy Carmel ar brynhawn sych yng nghanol cyfnod o dywydd gwlyb iawn ym mis Chwefror. Roedd hi'n daith ddifyr iawn ac wedyn mi gawsom ni banad a lluniaeth ar ôl i ni gyrraedd yn ein holau i'r ysgoldy.

**Gwasanaeth y Sul Chwefror 18fed**
Gwasanaeth yng ngofal pobl ifanc Clwb Dwylo Prysur ac un o'n haelodau newydd ni oedd hwn. Gwnaeth y saith ohonyn nhw eu rhannau yn ardderchog. Mi gawsom ni glywed darlleniadau a gweddïau gan Manon, Betsan, Cadi, Lloer ac Elan, ac unawdau gan Ffion a Charmaine. Mi wnaethon nhw gyd-ddarllen Salm 84 hefyd a chanu'r emynau 'Dros Gymru'n Gwlad', 'Dyro dy gariad i Gymru' ac 'Un cam bach'. Cariad oedd thema'r gwasanaeth.

**Capel Carmel**
*Gwasanaethau (am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol)*
Mawrth 17: Oedfa.
Mawrth 24: Parchg. Casi Jones.
Mawrth 31: Parchg. Dafydd Coetmor Williams.
Ebrill 7 : Parchg. Alan Spencer.
Ebrill 14 : Oedfa.
Ebrill 21 : Parchg. Dewi T. Morris (am 2.00 yp.)

Ysgol Sul am 10.30yb.
Clwb Dwylo Prysur, Nos Wener am 6.30yh.
CROESO CYNNES I BAWB


**Y saith a gymerodd ran yn y gwasanaeth**

# YSGOL LLANLLECHID

**Diolch**
Diolch yn fawr i Miss Lowri Hughes-Hodson am ei gwaith fel cymhorthydd yn Ysgol Llanllechid. Cawsom gyfle i ddiolch a ffarwelio hefo Miss Lowri yn neuadd yr ysgol cyn gwyliau'r hanner tymor. Dymunwn yn dda iawn i ti i'r dyfodol a chofia, paid â chadw'n ddiethr!

**Eisteddfod Cylch yr Urdd**
Mae'r disgyblion yn edrych ymlaen at gael cystadlu yn y cystadlaethau canlynol ar Fawrth 2il yn Ysgol Dyffryn Ogwen: Cystadleuaeth y côr, côr Cerdd Dant a pharti llefaru ynghŷd â'r holl unigolion. Dymuniadau da i chi i gyd.

**Bingo Pasg**
Cofiwch am ein Bingo Pasg a gynhelir yn y Clwb Criced ar Fawrth 14eg am 6pm. Diolch i'r Clwb Criced am eu croeso bob amser. Ar hyn o bryd, rydym yn codi arian i brynu mwy o I Pads i'r ysgol. Gwerthfawrogwn unrhyw gyfraniadau at y raffl! Dewch yn llu!




**Seirian Jones**

**Eisteddfod Offerynnol yr Urdd**
Ar Chwefror 10fed, aeth y disgyblion canlynol i gystadlu yn Eisteddfod Offerynnol yn Ysgol Brynrefail: Seirian Jones, Elsi Allsup, Iwan Hunnisett, Lili Williams, Efa Rhos Hughes ac Eban Hughes. Da iawn chi i gyd. Llongyfarchiadau gwresog i Seirian Jones ar gipio'r ail wobr drwy chwarae'r drymiau i safon arbennig.








**Tag Rygbi'r Urdd**
Llongyfarchiadau i chi genod ar chwarae mor dda yn y twrnaiment Tag Rygbi'r Urdd a chipio'r ail wobr. Pawb a'i fedal! Llongyfarchiadau gwresog i chi!

Llongyfarchiadau hefyd i'r tîm iau a fu'n cystadlu yn nghystadleuaeth Tag Rygbi Cymysg. Chwarae campus!

**Coed Meurig**
Dyma hwyl a gafodd dosbarth Mr Sion Llywelyn yn ymweld â Choed Meurig, neu Goed Llyfr Mawr y Plant i ni! Cafwyd cyfle i weld y goeden hynafol a dysgu pob math o ffeithiau yng nghwmni Mr Ben Stammers. Diolchwn i Mr Stammers am ei amser a'i ffordd hyfryd gyda'r disgyblion.

**Ysgol Llanllechid yn 70 oed**
Rydym newydd sylweddoli fod Ysgol Llanllechid yn dathlu penblwydd arbennig eleni! Un o'r gweithgareddau sydd ar y gweill yw gwneud gwaith ymchwil i hanes Ysgol Llanllechid, ar y cyd â Chlwb Hanes Rachub a Llanllechid. Ar hyn o bryd, rydym yn awyddus i gasglu pob math o luniau, fideos o gymeriadau (hen ac ifanc) yn sgwrsio am eu hatgofion ac am eu dyddiau yn Ysgol Llanllechid. Felly â fyddech yn fodlon ein helpu drwy anfon unrhyw luniau a.y.y.b. atom yn electroneg neu ar bapur; os ar bapur, cofiwch roi eich enw a'ch rhif ffôn ar y cefn. Anelwn at wneud cyflwyniad yn y Clwb Criced ym mis Mai/Mehefin. Llawer mwy o fanylion i ddilyn. Diolch i Mrs Marian Jones a Mr Dilwyn Pritchard am ein cynorthwyo.

Hefyd, rydym wedi gwirioni cael derbyn llyfryn ' Ardal Rachub' o waith Mrs Marian Jones sydd ar werth ar hyn o bryd yn Londis, Bethesda. Llawer iawn o ddiolch.

**Dydd Miwsig Cymru**
Buom yn crafu pen ynglŷn â beth i'w ganu ar y dydd arbennig hwn! Roedd yr ateb yn syml! Be' gewch chi well na 'Defaid William Morgan' gan William Griffith o Hen Barc? Oeddech chi'n gwybod fod deg o benillion i'r gân yma?!

**Gweithgareddau Ar Ôl Ysgol**
Mae'r disgyblion yn ffodus iawn, yn cael dewis o'r gweithgareddau yma ar ôl ysgol:
Clwb Codio
Clwb Celf
Clwb Gwaith Cartref
Clwb Stori
Clwb Chwareaon

Diolch i'r staff ymroddgar am arwain y gweithgareddau hyn.

**Tom Bowne**
Bu'n fraint croesawu Tom Bowne o Lwydiarth Esgob yn Ynys Môn i'r ysgol i drafod sut oedd yn mesur glawiad ers 1948. Profiad oedd yn clymu'n arbennig o dda gyda gwaith y disgyblion hynaf ar y tywydd ac ati. Diolch i Mr Bowne!

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

**CANOLFAN CEFNFAES**

## Gyrfa Chwist

Mawrth 26
Ebrill 9, 23 a 30
am 7 o'r gloch. Croeso i bawb

## Sefydliad y Merched Carneddi

yn cyfarfod ar y nos Iau cyntaf o bob mis yn **Festri Jerusalem** am 7 o'r gloch.

**DYDDIADUR BOREAU COFFI**

**2024**

**23 Mawrth** – Helpu Trigolion GASA – Festri Jerusalem.
**6 Ebrill** – Plaid Cymru – Cefnfaes.
**13 Ebrill** – Sefydliad y Merched Carneddi
**20 Ebrill** – Eisteddfod Dyffryn Ogwen – Cefnfaes.
**11 Mai** – Cymdeithas Jerusalem – Festri Jerusalem.
**18 Mai** – Cymorth Cristnogol – Cefnfaes.

**Pwysig**

*Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos bob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).*

**FESTRI CARMEL LLANLLECHID**



## TE BACH

**Dydd Llun, 18 Mawrth**
2.30 – 4.00
Croeso cynnes i bawb

**FESTRI JERUSALEM**

## BORE COFFI

**Sadwrn, 23 Mawrth**
**10.00 – 12.00**
**Mynediad: £1.00**
**Elw i Helpu Trigolion GASA**

## Clwb Coffi Talybont

**FESTRI BETHLEHEM**
Boreau Llun, 10.30 – 12.00
**Mawrth 25**
**Ebrill 8 a 22**
Croeso cynnes i bawb

**FESTRI JERUSALEM**

## Y Gymdeithas

**Adloniant**
**Parchg. Wyn Roberts (ELVIS)**
**Nos Iau, 11 Ebrill**
**am 7 o'r gloch**

## Marchnad Ogwen

**Ebrill 13eg**
**Mai 11eg**
**9.30am - 1pm**
**Neuadd Ogwen**
Bwydydd, Crefftau, Lleol
**www.marchnadogwen.co.uk**

**CEFNFAES (LLAWR UCHAF)**

## BORE COFFI PLAID CYMRU

Sadwrn, 6 Ebrill
10.00 – 12.00
**Mynediad: £1.00**

**CEFNFAES (LLAWR UCHAF)**

## BORE COFFI EISTEDDFOD GADEIRIOL DYFFRYN OGWEN

Sadwrn, 20 Ebrill
10.00 – 12.00
**Mynediad : £1.00**

**FESTRI JERUSALEM**

## Bore Coffi Sefydliad y Merched Carneddi

**Sadwrn, 13 Ebrill**
**10.00 - 12.00**


# C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu
Timber & Builders' Merchants

Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel - Llandudno

C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau Llangefni a Llanrwst.




Bethesda 01248 600 045
bethesda@cljonesltd.co.uk

# Rhiwlas

**Annes Glynn**, Bwthyn Cefn Braich, Rhiwlas
LL57 4HB
annes.glynn@gmail.com
(01248) 351015

**Apêl am ffotograffau**

Eleni mae Ysgol Rhiwlas yn dathlu carreg filltir go arbennig – sef pen-blwydd yn 150 oed.

Os oes gennych chi neu aelod o'ch teulu ffotograffau o Ysgol Rhiwlas byddem wrth ein boddau'n eu gweld. Plîs gyrrwch gopïau ohonyn nhw at ysgolrhiwlasyn150@outlook.com

Bydd cyfle i weld yr holl ffotograffau fydd wedi dod i law drwy ymweld â'r ysgol ddydd Sadwrn 20fed Ebrill rhwng 11am – 3pm. Dyma gyfle ichi grwydro a hel atgofion dros baned a theisen, ac wrth gwrs pori drwy'r hen ffotograffau. Croeso cynnes i bawb!

**Cwblhau Prosiect Grant**

Dwy flynedd yn ôl, fe wnaeth Neuadd Rhiwlas a Bwyd Bendigedig gais am grant ar y cyd i Gynllun Cymunedol Tirlenwi Llywodraeth Cymru. Fe fu'r cais yn llwyddiannus ac ers hynny mae nifer o welliannau wedi eu gwneud yn y Neuadd.

Arian y grant a ddefnyddiwyd i weddnewid y gegin yn un golau, hwylus ac i osod y rac beiciau tu allan i'r drws ffrynt. Hefyd prynwyd paneli acwstig a'u gosod ar y waliau a'r nenfwd yn y brif neuadd. Fe fu'r rhain yn llwyddiant ysgubol. Nid yn unig fod yr atsain, oedd yn ei gwneud hi'n anodd clywed pobol yn sgwrsio â'i gilydd, wedi diflannu ond mae'r paneli acwstig wedi cael sêl bendith neb llai na Rhys Meirion gymerodd ran mewn cyngerdd arbennig yn y Neuadd fis Mawrth diwethaf. Dywedodd fod y sain yn y neuadd gyda'r gorau y bu'n perfformio ynddi erioed yng Nghymru. Canmoliaeth yn wir!

Mae'r system PA newydd yn cysylltu â'r ddolen sain i'r rhai hynny sy'n gwisgo cymhorthion clyw. Os nad ydych chi wedi bod draw i'r Neuadd ers sbel croeso ichi alw heibio i weld y gwahaniaeth mawr y mae'r newidiadau yma wedi eu gwneud.

Yn y cyfamser, efo'u rhan nhw o'r grant, mae Bwyd Bendigedig wedi cydweithio â'r ysgol i osod potiau plannu yn yr ysgol ac yng ngwaelod Caeau Gleision. Cafwyd gwledd o flodau yn y rhain drwy'r haf diwethaf. Yna fe brynwyd mainc a phlannwyd bylbiau a choeden geirios fydd yn sicr yn destun pleser am flynyddoedd i ddod heb sôn am gynhyrchu maeth peillio. Plannu'r goeden oedd rhan olaf y gwaith.

Diolch i Gynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ac i'r holl wirfoddolwyr a gynorthwyodd y Neuadd a Bwyd Bendigedig efo'r prosiect yma.

**Merched y Wawr**





Gan fod eu cyfarfod fis Chwefror yn digwydd ar Ddydd Mawrth Crempog eleni mwynhaodd yr aelodau wledd i'w chofio, diolch i Kate Wheelock. Roedd Mari hefyd wedi coginio crempogau di-glwten ac roedd dewis o ffrwythau amrywiol a sirop ar gael i'w rhoi arnyn nhw. Paratowyd y baned gan Linda a Mari a braf oedd cael rhoi'r byd yn ei le, sgwrsio am draddodiadau crempog teuluol a dwyn i gof hen benillion fel 'Modryb Elin Ennog, os gwelwch chi'n dda ga'i grempog' - ambell un yn reit anghyfarwydd. Enillydd y raffl y tro yma oedd Kate.

Yn ein cyfarfod ar y 9fed Ebrill bydd Linda Brown, fu'n gweithio fel gweinyddwraig cwmni Theatr Bara Caws am 40 mlynedd, yn dod draw atom ni i sôn am droeon ei gyrfa. Mae'n siŵr o fod yn sesiwn bywiog a difyr. Croeso cynnes iawn i aelodau newydd ymuno efo ni. Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y neuadd ar yr ail brynhawn Mawrth yn y mis am 1.30 o'r gloch.

**Cyfeillion Rhiwlas**

Dyma chi gwpwl o ddyddiadau i'w nodi yn eich dyddiaduron. Ar **nos Iau, Mawrth 28**, bydd y Cyfeillion yn cynnal Noson Bingo yn y Neuadd, i ddechrau am 6.30 o'r gloch. Mae'r rhain yn boblogaidd felly gwnewch yn siŵr o'ch lle! **Nos Sadwrn, Ebrill 27**, cynhelir y noson Cwis, eto i gychwyn am 6.30 o'r gloch. Croeso cynnes iawn i bawb.

**Cacen a choffi**

Mae'r prynhawniau cacen a choffi dan ofal Sharon Griffith a Gill Walker yn rhai y mae pawb yn edrych ymlaen amdanyn nhw! Bydd y nesaf ar brynhawn **Sadwrn, Ebrill 13,** rhwng 1 a 3 o'r gloch y p'nawn a bydd yr arian yn mynd tuag at gronfa adfer Eglwys Sant Cedol, Pentir. Dewch yn llu!

**Clwb Rhiwen**

Diolch i Jean Vaughan Jones am greu'r cwisiau oedd yn gymaint o hwyl y mis diwethaf. Yr un oedd yn dibynnu ar eiriau cyswllt a achosodd y dadlau mwyaf, gan na allai neb ateb y cwestiwn cyntaf. Ond roedden ni'n llwyddiannus yn y diwedd – wel, bron iawn beth bynnag!

**Clwb Crefft**



Yn ddiweddar bu aelodau'r Clwb yn creu cyfraniadau lliwgar, wedi eu gwau a'u crosio, i Her y Sgarff 2024 a osodwyd gan Leisiau Gofal Cymru (*Voices From Care Cymru*). Trefnir VFCC gan bobl a dderbyniodd ofal. Ei nod yw gwella bywydau plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Yr her i VFCC yw casglu 7893 o sgwariau – un ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc sy'n byw mewn gofal yng Nghymru – i greu un sgarff yn mesur 2 sgwâr ar draws a 877 llathen o hyd. Y bwriad yw cyfleu cynhesrwydd a diogelwch a chyswllt. Ar ôl cyrraedd y nod bydd sgarffiau unigol yn cael eu creu o'r cyfanwaith ac yn cael eu cyflwyno i blant sydd mewn gofal. Mae'r Clwb Crefft yn cyfarfod ar nosweithiau Llun yn y Neuadd am 7 o'r gloch.

**Ar daith**

Bu artist sydd â'i gwreiddiau'n ddwfn yn y pentref ar daith drwy Gymru yn ystod yr wythnosau diwethaf. 'Emynau Coll y Werin' yw teitl taith gerddorol Lleuwen Steffan, taith sydd wedi cael derbyniad cynnes mewn tua dwsin o gapeli hyd yma.

Cafodd Lleuwen y cyfle rai blynyddoedd yn ôl i ymchwilio i hen emynau coll sydd i'w clywed yn archif Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan fel rhan o'r prosiect Trac oedd yn rhoi'r cyfle i 10 o gerddorion fynd ar daith drwy Gymru i ddysgu am ganu gwerin Cymraeg.

Bu'n canu ambell un yn Eisteddfod Boduan gan ennyn ymateb cynnes ac yn dilyn gwahoddiad diweddarach i un o gapeli Sir Gaerfyrddin i rannu'r emynau coll penderfynodd fynd â nhw ar daith oherwydd yr ymateb iddyn nhw, a oedd yn un 'rhyfeddol' meddai.

Ar y daith bydd Lleuwen yn cydganu weithiau efo'r recordiad gwreiddiol a dro arall yn ychwanegu seiniau electronig neu rai y mae hi wedi eu casglu o leoliadau arwyddocaol yn hanes y cyfansoddiadau.

Bydd hi'n perfformio yn Nghapel Shiloh, Tregarth **nos Sadwrn, Ebrill 27** am 7.30 o'r gloch ac yng nghapel Rhos y Gad, Llanfairpwll ar **Ebrill 29**, eto am 7.30 o'r gloch. Does dim tâl mynediad. Fel y dywedodd Lleuwen ar y rhaglen radio 'Bwrw Golwg' yn ddiweddar: "Pobol Cymru biau'r prosiect yma, emynau'r Cymry ydyn nhw'n de?"

## Capel Siloh Newydd yn Neuadd Rhiwlas

**Gwasanaethau'r Sul**

Dyma fanylion y gwasanaethau sydd i'w cynnal yn y Neuadd am 10 o'r gloch ar y Suliau canlynol:

17 Mawrth - Parch Ddr Ian Morris (Gweinidog);

24 Mawrth - Parch Philip Barnett, Huddersfield.

Ebrill 14, Parch Ddr Ian Morris (Gweinidog)

Sacrament Swper yr Arglwydd

Ebrill 21, Canon Idris Thomas.

# YSGOL RHIWLAS

### Gwyliau hanner tymor
Nid dim ond disgyblion Ysgol Rhiwlas fu'n mwynhau gwyliau hanner tymor mis Chwefror … cafodd criw o greaduriaid bychan fynd ar eu gwyliau hefyd! Mae gan yr ysgol gasgliad o greaduriaid megis neidr ('corn snake'), miltroed ('millipede'), malwen Affricanaidd ('African snail'), a mantis gweddïol ('praying mantis'), a dros wyliau'r hanner tymor cawsant fynd i aros gyda rhai o'r disgyblion. Diolch i bawb fu'n gofalu am y creaduriaid arbennig yma.

### Fi fy hun
Thema disgyblion Cyfnod Allweddol 1 ydi 'fi fy hun'. Mae pawb yn edrych ymlaen yn arw i ymweld â archfarchnad 'Tesco' ym mis Mawrth er mwyn dysgu am fwyd.

### Y system dreulio
Thema disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yw'r 'system dreulio', a chafodd y disgyblion gyfle i holi meddyg lleol pan ymwelodd â'r dosbarth. Cafwyd cwestiynau diddorol, a pawb yn frwdfrydig i ddysgu. Tybed gafodd unrhyw un eu hysbrydoli i fod yn feddyg yn y dyfodol? Cawn weld!

### Dŵr Cymru
Dydd Llun, 19eg Chwefror daeth Catrin o 'Dŵr Cymru' i gwrdd â disgyblion Cyfnod Allweddol 2 i'w haddysgu am bopeth i'w wneud gyda dŵr - sut mae Dŵr Cymru yn ei gasglu, ei drin, ei ddefnyddio a'i lanhau. Mwynhaodd y disgyblion 'her y rhwydwaith', lle rhoddwyd yr her o greu a chynllunio model rhwydwaith dŵr i gyflenwi dŵr i bentref. Diolch Catrin!

### Penblwydd arbennig Ysgol Rhiwlas
Eleni mae Ysgol Rhiwlas yn dathlu carreg filltir go arbennig – sef pen-blwydd yn 150 oed. Mae'r disgyblion wrthi yn nodi'r digwyddiad, ac ar fin creu cân newydd ar gyfer yr ysgol dan arweiniad Mr Phormula. Maen nhw hefyd yn gweithio ar greu capsiwl amser, ac yn mynd i gael eu cyfweld ar gyfer rhaglen Radio Cymru 'Aled Hughes'. Adroddiad llawn i ddilyn yn rhifyn nesaf Llais Ogwan!

# Pentir

**Cynrig a Carys Hughes,**
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
(01248 601318) carys16@hotmail.com

---

**Cyngor Cymuned Pentir**
Os oeddech chi'n teithio trwy Bentir fis Rhagfyr byddwch yn siŵr o fod wedi sylwi ar y goeden Nadolig hardd wedi'i goleuo ar y troad i mewn i'r pentref.

Syniad Parchu Pentir oedd y goeden a Chyngor Cymuned Pentir gefnogodd y cais. Diolch i Gyngor Gwynedd am sicrhau'r cyflenwad trydan ac i Gyfeillion Rhiwlas am osod y goeden a'i haddurno.

Gobaith Cyngor Cymuned Pentir yw ehangu hyn y flwyddyn nesaf gan osod coed a goleuadau mewn mannau eraill, fel Penrhosgarnedd a Threborth.

## Eglwys St. Cedol, Pentir

**Hamper Misol**
Rydym yn cynnal Raffl o Hamper Misol ar themau gwahanol bob mis er mwyn codi arian i gynnal yr Eglwys. Enillydd yr Hamper Mis Ionawr, yn rhoddedig gan Jimmy, oedd Ann Williams.

Hoffwn ddiolch i'r aelodau, ein teuluoedd a'n teuluoedd estynedig am fod mor barod i brynu'r tocynnau raffl, hefyd i'r aelodau a ffrindiau sydd wedi bod mor hael yn ei rhodd o'r haperi. Diolch o galon i chi gyd.

**Te Bach**
Mae eglwys St.Cedol yn ail ddechrau cynnal ei Tê Bach ar brynhawn Mercher cyntaf or mis am 2 o'r cloch y prynhawn, bydd y Tê Bach nesaf ar y 3ydd o Ebrill. Mae croeso cynnes i chwi ymuno â ni am brynhawn hwyliog gyda phanad, teisan a sgwrs.

**Gwasanaethau'r Wythnos Fawr a'r Pasg**
**Sul y Blodau**
24.3.24 9.30yb Boreol Weddi

**Gwener y Groglith**
29.3.24 12.00 Myfyrdodau a Gweddiau Wrth droed y Groes

**Sul y Pasg**
31.3.24 9.30yb Cymun Bendigaid

**Gwasanaethau'r Sul**
Mae Gwasanaeth bob bore Sul am 9.30yb mae croeso cynnes i bawb ymuno yn y gwasanaethau, gyda phanad a sgwrs i ddilyn.

**Manylion cyswllt**
Os am drefnu priodas neu fedydd neu unrhyw fater arall i ymwneud â'r eglwys cysylltwch â'r Parch. Ddr Gareth Lloyd, Arweinydd Ardal Gweinidogaethol Bro Ogwen gareth.lloyd@cantab.net neu 01248 361521, a chofiwch fod Nia (warden) 07719 918686 yna i chi os am unrhyw wybodaeth neu i gael sgwrs.




1969
**M.HUGHES A'I FAB**
**CONTRACTWYR TOI**
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda ☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
garribryn@aol.com
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.



# YSGOLION ABERCASEG A PHENYBRYN

**Diwrnod Miwsig Cymru**

Cawsom ddiwrnod i'r brenin yn dathlu Diwrnod Miwsig Cymru ym Mhenybryn ac Abercaseg ar Chwefror 19eg. Diwrnod o ddathlu fod ganddom artistiad talentog a stôr o ganeuon unigryw yn ein mamiaith. Bu blwyddyn chwech wrthi'n ddygn yn trefnu'r diwrnod yn Ysgol Penybryn. Cafodd pob plentyn waith cartref i wrando a gwerthuso 10 o hoff ganeuon dosbarth Elidir. Yna parti i bob dosabrth a oedd wedi ei drefnu gan flwyddyn chwech. Cyfle i chwarae bob math o gemau traddodiadol i gerddoriaeth Cymraeg a chwis adnabod y gân a'r artist. Diwrnod llawn hwyl ac yn werthfawrogol bod ganddom ystod o ddewis i'n diddanu.

Roedd pawb wrth eu boddau yn Ysgol Abercaseg hefyd, gyda digon o gyfleoedd i wrando ar gerddoriaeth Cymraeg gan lu o artistiaid a bandiau Cymraeg a chafodd pawb y cyfle i werthuso'r caneuon a dod o hyd i hoff gan bob dosbarth!

**Siarter Iaith**

Cyfnod 3 ar gychwyn – Cymru,Cymraeg,Cymuned

Do, mae cyfnod 3 C wedi cychwyn ym Mhenybryn. Cyfnod i ddathlu ein Cymreictod, ein hiaith a'n Cymuned. Rhoddodd y Cyngor Ysgol gyflwyniad arbennig yn y gwasaneth yn nodi beth oedd eu bwriad am y tymor nesaf, ac oes mae yna wledd o weithgareddau wedi eu trefnu I blant Penybryn. Edrychwn ymlaen i rannu'r bwrlwm a'r holl weithgaredau gyda chi yn y rhifyn nesaf o Llais Ogwen.

**Siaradwr Cymraeg Yr Wythnos**

Er mwyn hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg yn yr ysgol rydym wedi croesawu 'Dan y Ddraig' i bob dosbarth yn Abercaseg. Bydd un plentyn o bob dosbarth yn cael eu dewis fel Siaradwr Cymraeg yr wythnos ac felly yn cael y cyfle i fynd a Dan y Ddraig adref dros y penwythnos gan dynnu lluniau neu ysgrifennu am eu hanturiaethau. Rydym yn edrych ymlaen at weld ac i glywed yr holl hanesion!

**Ysgol Eco**

Mae Ysgol Penybryn ac Ysgol Abercaseg yn rhoi pwyslais mawr ar bwysigrwydd bod yn wyrdd a gofalu am y gymuned gydol y flwyddyn, ond mae cyfnod cyffrous ar droed i ddisgyblion y ddwy ysgol gyda llu o weithgareddau wedi trefnu ar eu cyfer gan y Grŵp Eco. Edrychwn ymlaen at wersi beicio, Kurb Craft, gweithdy gan Dŵr Cymru, ymweld a RSPB, glanhau a chasglu ysbwriel o amgylch y gymuned, helpu'r banc bwyd lleol a llawer mwy. Cewch flas o'r digwyddiadau a lluniau i'ch diddori yn y rhifyn nesaf o Llais Ogwen.



**Diwrnod Blasu Dyffryn Ogwen**

Tro Blwyddyn 4 oedd ymweld a Ysgol Dyffryn Ogwen y tro hwn. Roedd pawb wedi mwynhau bore o wersi difyr a chinio hynod flasus cyn dychwelyd yn ôl gyda boll lawn a gwên ar wyneb pob un. Diolch o galon i bawb yn Nyffryn Ogwen am wneud y profiad yn un i'w gofio i'n disgyblion, ond yn bwysicach rhoi blas iddynt o'r holl gyfleoedd gwych sydd o'u blaenau pan yn trosglwyddo I'r uwchradd yn y dyfodol.

**Ffarwelio**

Rydym wedi ffarwelio a Miss Erin Davies a fu'n aelod gwerthfawr o staff yr ysgol. Diolch iddi am ei chefnogaeth a'i gwaith caled wrth gefnogi'r disgyblion. Pob dymuniad da iddi!



## Rygbi Cymysg a Merched yr Urdd

Perfformiadau arbennig gan dîm rygbi merched Blwyddyn 5/6 a thîm cymysg Blwyddyn 3/4 Ysgol Penybryn yng Nghaernarfon ar ddechrau'r mis! Da iawn wir!



## Glasinfryn a Chaerhun

**Mair Griffiths**, (352966)
mairpenybryn@gmail.com

**Pen Blwydd Arbennig**
Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i Mr Arfon Evans, 39 Cae Garnedd, Penrhosgarnedd, gynt o Penhower Uchaf a chyn Brifathro Ysgol Penbryn a ddathlodd ei benblwydd yn 90 oed ar 9 Chwefror.

Mi fydd John Griffiths, 48 Bro Infryn, yn dathlu penblwydd ar 11 Mawrth yn 80 oed. Pob dymuniad da iddo yntau hefyd.

**Cymdogion Newydd**
Croeso cynnes iawn i Carys ac Alan Parry i 28 Caerhun, y ddau wedi symud o Fethesda.

Pob hapusrwydd i chwi yn eich cartref newydd. Mae Carys yn barod wedi archebu ei Llais Ogwan bob mis!

**Cylch Glasinfryn**
Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol ar 14 Chwefror yn y Ganolfan, gyda Mair yn y Gadair. Croesawyd aelod newydd i'r cyfarfod sef Carys Parry o Caerhun. Cafwyd rhai ymddiheuriadau oherwydd amryw resymau, un am ei bod yn hanner tymor a neiniau yn brysur gwarchod!

Cafwyd adroddiad cynhwysfawr iawn gan Jocelyn ar weithgareddau'r flwyddyn, y rhai hynny wedi bod yn amrywiol a diddorol tu hwnt. 'Roedd yr adroddiad ariannol gan Carole yr un mor drwyadl a braf oedd deall fod digon o arian yn y coffra i'n cynnal am flwyddyn arall. Cyhoeddodd Mair fod Cyngor Cymuned Pentir wedi bod yn hael iawn yn rhoi nawdd i ni eto eleni, gwerthfawrogir hyn yn fawr gan yr aelodau.

Ail etholwyd y Swyddogion am y flwyddyn a diolchwyd i bawb am eu hymrwymiad a'u cefnogaeth i'r Cylch gan Mair.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 13 Mawrth pryd byddwn yn dathlu Gŵyl Dewi gyda Cawl a Sgwrs yn y Ganolfan am 12.30yp. Ar 10 Ebrill cawn sgwrs ar "Gweilch y Pysgod Llyn Brenig" gan Sarah Callon o'r RSPB. Mae croeso cynnes i bawb ymuno â ni yn y Ganolfan am 2yp.

**Bingo Bach**
Calonog iawn oedd gweld y Ganolfan yn llawn i'r Bingo Bach cyntaf o'r flwyddyn newydd ar 23 Chwefror! Gwnaed elw o £216 tuag at y Ganolfan, diolch yn fawr i bawb a gyfranodd at y noson mewn unrhyw fodd ac am y gefnogaeth! Bydd y Bingo nesaf ar 22 Mawrth am 7yh, gyda'r elw yn mynd at Tŷ Gobaith.





**WALIO FFRANCON**
**Cysylltwch am Waith**
Trwsio/Codi Waliau
Clirio Gerddi ac Ysbwriel
07766 157552
07464 085759

**SIOP OGWEN**
**yn cynnig gwasanaeth**
**CLIC A CHASGLU**
Llawer o Nwyddau Newydd gan Grefftwyr Newydd wedi cyrraedd y siop
Hefyd
Llu o gardiau cyfarch ar gyfer pob achlysur.
Cysylltwch â'r siop ar y ffôn
**07394 905881**
neu E-bost siop@ogwen.org
i drafod beth sydd ar gael ac i wneud trefniadau casglu a thalu
**CEFNOGWCH WASANAETH LLEOL**

**MODURDY FFRYDLAS**
Profion M.O.T.
**PERCHNOGION**
A.LL. ac R.W. WILLIAMS
**Stryd Fawr, Bethesda**
PROFION M.O.T.
GWASANAETH ATGYWEIRIO
TEIARS A BATRIS
GWASANAETH TORRI I LAWR NEU DDAMWAIN
Ffôn: 600 723
E-bost: ffrydlas@btconnect.com

**CAFFI COED Y BRENIN**
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550
Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math – plant, pen-blwydd ac ati (yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)
Prisiau rhesymol
ORIAU AGOR
D. Mercher, Iau, Gwener 8.00 – 2.30
Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

# Rydym yn Cyflogi!

Rhentu Doeth Cymru
Rent Smart Wales

Mae Rhentu Doeth Cymru yn sicrhau bod landlordiaid ac asiantau yn gwybod beth sy'n ofynnol ganddynt i gydymffurfio â deddfau Cymraeg.

Rydym yn awyddus i recriwtio siaradwyr Cymraeg brwdfrydig o Ogledd Cymru i ymuno â thîm newydd o Gynrychiolwyr Gwasanaethau Cwsmeriaid yng Nghyffordd Llandudno.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus brofiad o weithio efo cwsmeriaid, sgiliau cyfathrebu, cynllunio, blaenoriaethu a dadansoddi gwych, bydd yn aelod ardderchog o dîm ac yn gyfrifol wrth eu gwaith.

- **Rhan o dîm deinamig newydd**
- **Hyfforddiant yn gynwysedig**
- **Cefnogi cwsmeriaid**
- **£23,893-£25,979**

**Am fwy o wybodaeth ar y broses ymgeisio, cysylltwch â Sarah Griffin, Sarah.Griffin@Caerdydd.gov.uk**

# Iaith Pesda

## gan Mary Jones

Dywedais y buaswn  yn sôn rywfaint am 'y ty' felly dyma rai geiriau a gofiaf iddynt gael eu defnyddio mewn perthynas â gwahanol rannau o'n cartrefi. Ni fyddwn i byth ers talwm yn dweud 'ystafell wely' ond yn hytrach 'fy llofft'. Golyga hynny wrth gwrs bod yr ystafell, felly, i fyny'r grisiau. Ond beth tybed fyddai pobl oedd yn byw mewn bythynod heb risiau yn arwain i ystafelloedd uwchben y llawr. 'Siambr' fyddai un  gair yn dod o'r Saesneg chamber, ac efallai y byddai ysgol neu risiau yn arwain i un ystafell sef 'croglofft'. Mewn llawer o dai byddai un ystafell na ddefnyddiwyd dim ond yn achlysurol iawn, pan fyddai 'pobl ddiarth pwysig' yn galw neu efallai yn ystod y Nadolig. Yr ystafell honno fyddai'r 'parlwr' neu y parlwr gora'.

Dyma  rai eraill – 'sbensh' neu y 'twll dan grisia'  'cowt' tu allan i gefn y ty. Buaswn wrth fy modd cael mwy o'r rhain, beth am ichi adael i mi wybod amdanynt.

Soniwyd am 'gaenen o eira' y tro diwethaf, hynny ydy haenen o eira. Mi ges i air arall am gaenen o eira neu rew ar y llethrau gan Richard Ogwen Jones, a'r gair hwnnw ydy 'sglent' (hefyd 'sglentan') . Pwy arall, tybed, sy'n defnyddio'r gair 'sglentan'.

### Ambell Air ac Ymadrodd

Daeth dau ddywediad arall yn ymwneud â moch. Un ydy 'cysgu 'fath â thwrch' – cysgu fel mochyn gwyllt. Y llall ydy am ddau'n ffraeo 'fel ci a hwch' (nid 'fel ci a chath').

**dow-dow.** Gwneud rhywbeth yn araf deg neu 'wrth eich pwysau' mae hwn yn ei olygu – "Maen nhw am ail-wneud y tŷ dow-dow."

**sglaffio bwyta.** Ffordd arall o ddeud 'llowcio' – "Drycha'r plant 'na'n sglaffio'r hufen iâ 'na!"

**pric pwdin.** Pric i droi pwdin ers talwm oedd hwn, ac mae ystyr arall iddo fo, sef disgrifiad o rywun yn cael ei ddefnyddio drwy i rywun arall fanteisio arno fo neu hi. "A' i ddim yn bric pwdin i neb."

**diod ddail.** Gan fod dalan poethion (danadl poethion) yn cynnwys haearn, byddai pobl ers talwm yn berwi'r dail mewn llond sosban o ddŵr, ac yfed y dŵr ar ôl iddo oeri. Roedd yr haearn yn gymorth i gryfhau'r corff mewn gwendid ar ôl salwch. Y ddiod ddail oedd yr enw ar y ddiod.

**giami.** Ystyr y gair hwn wrth ddisgrifio cyflwr rhywun ydy sâl, gwael, gwantan: "Mae o ddigon giami heddiw." Mae o hefyd yn cael ei ddefnyddio pan fo sefyllfa'n wael: "Maen nhw'n deud ei fod o wedi colli pres mowr. Giami 'de."

**cweirio gwely.** Dyma'r dywediad am 'wneud' y gwely, hynny ydy ei dacluso – rhoi'r cynfasau a'r gobenyddiau mewn trefn yn y bore. Mae'r gair 'cweirio' yn dod o 'cyweirio' ac mae ganddo ystyron eraill. Un ohonyn nhw ydy 'sbaddu – torri ceilliau anifail.

**raga-rug/ryg-arug**. Enw aderyn ydy hwn – rhegen yr ŷd neu rhegen y rug – ac mae'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio rhywun swnllyd: "Taw, da ti. Wyt ti 'fath â ragar-rug!" Clywais bod y rhuglen (rattle) a ddefnyddiwyd mewn gemau peldroed gan y gwylwyr ers talwm yn cael eu galw yn 'ragar-rug' oherwydd y swn a gynhyrchwyd ganddynt wrth gael eu troi.



**hudo.** Dyma air arall sydd efo llawer o ystyron. Mae o'n golygu 'denu' ac mae o i'w glywed ar lafar, er enghraifft rhybudd mam i'w mab: "Paid ti â cael dy hudo gin hogia mowr i neud dryga."

**nôl negas.** Gallwn roi neges oddi wrth un person i berson arall – " Mae gen i neges i ti gan Huw, mae o am i ti ei gyfarfod am wyth." Peth gwahanol iawn ydy 'nôl negas', mae hwn yn gyfystyr â mynd i'r siop i brynu nwyddau, bwyd fel arfer. Byddai'n rhaid 'nôl negas' yn amlach ers talwm gan nad oedd modd ei gadw fel y gallwn heddiw. Byddai'n arferol cael 'rhestr negas' a 'bag negas' cyn gadael y ty. Un o fy nghâs bethau i ydy cadw negas!

**rwbath-rwbath**. Daw hwn o 'rywbeth-rywbeth, ac rydan ni'n ei ddweud mewn gwahanol ffyrdd. Un ydy pan fyddwn i wedi ein siomi mewn rhyw wasanaeth neu'i gilydd– "Fel 'na maen nhw yntê, rhoi rwbath-rwbath i ti!" Un arall ydy pan nad ydy o ddim ots gynnon ni ynghylch llenwi rhyw ffurflen neu'i gilydd yn gywir – "Sgwenna rwbath-rwbath arni!"

**Cael bachiad**

Dyma i chi ymadrodd diddorol, ac mi fydda' fo'n cael ei ddefnyddio'n aml mewn gwahanol sefyllfaoedd. Awn i fyd y sgotwrs i ddechrau. Rhoi abwyd ar fachyn ar flaen y lein yn y dŵr gan obeithio cael bachiad, hynny ydy pysgodyn yn agor ei geg i lyncu'r abwyd, a'r bachyn yn mynd yn sownd yn ei wefus. "Dw i di cael bachiad!" ydy gwaedd y sgotwr i roi gwybod I sgotwr arall. Yna, awn i fyd gwaith a swyddi – "Mae Siân 'di cael bachiad o'r diwedd. Mae hi 'di bod yn trio cael joban ers tro." A rŵan at fyd caru a chanlyn. Ers talwm, pan fyddai llanc wedi cael cariad, yr hyn a ddywedid fyddai "Mae o wedi cael bachiad."

Cofiwch anfon unrhyw gyfraniadau at Mary Jones, 42 Erw Las, Bethesda LL57 3NN  ffôn 07443047642 maryeds@hotmail.co.uk


**Contractwyr Trydanol**

**Jones & Whitehead cyf**

Swyddfa Gofrestredig Penrala,
Tregarth, Bangor, Gwynedd,
LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

# Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

**Yn yr ysbyty**
Gwellhad buan i Eleanor Holland, Perthi, sydd wedi bod yn Ysbyty Gwynedd am gyfnod ac sydd bellach yn gwella yn Ysbyty Eryri, Caernarfon. Rydan ni i gyd fel pentrefwyr yn anfon ein cofion atoch ac yn mawr obeithio y byddwch adra yn fuan.

**Eisteddfodau'r Urdd**
Pob hwyl i bawb o'r ardal fydd yn cystadlu yn Eisteddfodau'r Urdd eleni. Mwynhewch y profiad o ddysgu darnau newydd, i fwynhau cydweithio gyda ffrindiau ac i ddiolch i'ch rhieni, athrawon a hyfforddwyr fydd yn rhoi o'u hamser i'ch dysgu. Mae'n sicr y bydd croeso twymgalon yn eich disgwyl yn Sir Drefaldwyn eleni.

**Merched y Wawr, Cangen Tregarth**
Rhoddwyd croeso i'r holl aelodau ddaeth i gyfarfod y gangen yn Festri Capel Shiloh Newydd Nos Lun, Chwefror 5, gan y llywydd Carol Jones. Cyfeiriodd at farwolaeth un o'n cyn aelodau fu farw, sef Buddug Roberts, gynt o Tal y Cae, ond yn cartrefu wedyn yn Llanfairpwll. Bu Buddug ar un adeg yn llywydd y gangen ac anfonwyd ein cofion at ei theulu. Daeth dwy brofedigaeth fawr i un o'n haelodau sef Carys Dafydd, Braich Melyn. Collodd Carys a'r teulu fab yng nghyfraith a brawd o fewn wythnosau i'w gilydd ac mae ein meddyliau gyda'r teulu ar amser mor drist yn eu bywyd.

Angharad Griffiths, Bethesda, oedd siaradwraig y noson a thestun ei sgwrs oedd 'Bwyta'n iach gyda Angharad'. Aeth ati i egluro ei bod yn gweithio'n rhan amser fel Maethydd. Dywedodd ei bod y helpu merched a dynion prysur sy'n caru bwyd i ddod o hyd i ffordd gynaliadwy o fwyta heb orfod aberthu dim. Mae'r dull hwn yn arwain at golli pwysau yn gall ac yn rhoi cefnogaeth i'r system dreulio. Atgoffodd ni pa mor bwysig ydi gofalu am y perfedd. Roedd hon yn noson addysgiadol a diddorol ac yn agoriad llygaid i lawer o'r aelodau.

Diolchwyd i Angharad ar ran y gangen gan Mary Jones.

Diolchwyd hefyd i'r aelodau am baratoi y baned a chyhoeddwyd y byddwn yn dathlu Gwyl Ddewi, Nos Lun , Mawrth 4, yn y Festri gyda Chawl a Chân gyda dwy arbennig iawn yn ein diddanu. Mwy o hanes y noson yn y rhifyn nesa o'r Llais.

## Shiloh Newydd Tregarth

Mae gwasanaethau yn Shiloh bob Nos Sul am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol.
Mawrth 17 Dr Ian Morris
Mawrth 24 Sul y Blodau Philip Barnett, Swydd Efrog
Mawrth 28 Dydd Mawrth Cablyd Gwasanaeth Cymun Undebol am 6.00
Mawrth 31 Sul y Pasg Nerys Griffiths, Caernarfon
Ebrill 7 Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid
Ebrill 14 Dr Ian Morris
Ebrill 21 Glyn Tomos, Caernarfon
Bydd Drws Agored fel arfer pob bore Gwener o 10.00 hyd 12.00 o'r gloch.
Croeso cynnes i bawb.

# Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

**Croeso 'nôl !**
Ar ôl treulio chwe' mis mewn gwahanol ysbytai a Chartref Gofal, mae Mrs. Rhiannon Williams wedi cael dod adref o'r diwedd.

Rhiannon, mae'ch ffrindiau a'ch cymdogion mor falch o'ch gweld yn ôl yn eich cartref, a gwyddom fod y teulu wrth eu bodd. Bu'n amser hir a phryderus i chi i gyd.

Edrychwn ymlaen at eich gweld yn 'Bwrlwm Bethlehem' a'r boreuau coffi Cymunedol cyn bo hir. Daliwch ati i gryfhau !

**Profedigaeth**
Anfonwn gydymdeimlad diffuant at Ian a Claire a'r teulu, 13 Cae Gwigin. Bu farw mam Ian, Mrs Beryl Hughes, yn dawel yn ei chartref, Yr Elan, Llandegai, ar Chwefror 9ed.

Cafodd ei magu yn rhif 6 Cae Gwigin gan ei modryb a'i hewythr, Gwyneth a Herbert Weatherall. Mae coffa da amdanynt ymysg y tô hŷn yn Nhalybont.

Nid oedd Beryl wedi mwynhau iechyd da ers amser maith ond, wedi iddi golli ei phriod, derbyniodd ofal tyner gan Ian a Claire, a fu'n ffyddlon iddi hyd y diwedd.

**Penblwyddi arbennig**
Dymuniadau gorau i Chloe, Bro Awel, a ddathlodd ei phenblwydd yn ddeunaw oed ar Ŵyl Sant Folant.

Iechyd da a phob bendith i'r dyfodol iti, Chloe, a hwyl ar arholiadau'r Haf!

Bydd Gwen Ellis, Cap Coch, yn dathlu ei phenblwydd yn yr Eidal , lle bydd Wyn a hithau'n treulio ychydig o ddyddiau .

Gobeithio y cei benblwydd arbennig iawn, Gwen. Mae pawb yn falch dy fod ti a Wyn wedi dod atom i fyw i'r pentref. Rydach chi'n cefnogi popeth sy'n mynd ymlaen yma.

**Ymddeoliad**
Ar ôl deugain mlynedd o fod wrth y llyw yn Siop Gray Thomas, Caernarfon, mae Mrs Carys Fox, Bwthyn Tŷ Mawr, a'i chwaer Eleri, wedi penderfynu bod yr amser wedi dod iddynt ymddeol.

Mae'r busnes teuluol yn rhan o fywydau trigolion Caernarfon a'r pentrefi cyfagos ers canrif. Oherwydd ei amlochredd, mae cerddorion ac arlunwyr amlyca'r genedl wedi manteisio ar ei wasanaeth, a'r caffi bach a'r siop wedi denu cenedlaethau o bobl y dre' i gael panad a sgwrs mewn awyrgylch Gymraeg, groesawus.

Dymunwn ymddeoliad hir a hapus ichi, Carys, a iechyd da i fwynhau cwmni'r teulu a ffrindiau.

**Hel Atgofion**
Mae Gwen (Cap Coch) wrthi'n recordio lleisiau pobl sy'n cofio Talybont fel yr oedd ers talwm.

Mae hyn yn rhan o brosiect "Lleisiau Lleol ", Partneriaeth Ogwen.

Mi fuasai Gwen wrth ei bodd yn clywed eich hanesion. Os am wybod mwy, ffoniwch hi ar 07788485238 neu galwch heibio.

Ei chyfeiriad E-bost yw gwenellisharries@gmail.com

## Capel Bethlehem

*Oedfaon (am 2 o'r gloch)*
Mawrth 17: Oedfa.
Mawrth 24: Parchg. Rhodri Glyn.
Mawrth 31: Parchg. Casi M. Jones.
Ebrill 07: Parchg. Ddr. Geraint Tudur.
Ebrill 14: Parchg. Anna Jane Evans.
Ebrill 21: Mr. Dafydd Iwan.

Croeso cynnes i bawb.

*Cyfarfod Chwarter*
Ar nos Fercher, 14 Chwefror, braint i ni ym Methlehem oedd cael cynnal Cyfarfod Chwarter Cyfundeb Annibynwyr Gogledd Arfon. Bu'n gyfarfod llwyddiannus a ddilynwyd gyda phaned i bawb yn y festri.

Diolch i'r rhai fu'n darparu ac yn croesawu.

**Cofion**
Cofiwn yn gynnes iawn at deuluoedd 'Y Post' a 'Sŵn y Nant'.

Rydym yn meddwl amdanoch o hyd.

**Clwb Coffi Talybont**
Daeth criw niferus ynghyd i'r Clwb yn ei gyfarfod cyntaf o'r flwyddyn a gynhaliwyd ar 12 Chwefror. Bydd cyfle i bawb fwynhau eu hunain yng nghyfarfodydd y Clwb a gynhelir bob yn ail fore Llun yn festri Bethlehem am 10.30 – 12.00. Croeso i chi alw heibio.

# YSGOL TREGARTH




**Rygbi Tag**
Aeth tri tîm rygbi tag o ysgol Dregarth draw i glwb rygbi Caernarfon ar gyfer cystadleuaeth yr Urdd. Llwyddodd tîm blwyddyn 3 a 4 i gyrraedd y rownd derfynol ar ôl ennill 6 gem allan o 6, ond yn anffodus, colli i dîm da o Bontnewydd oedd eu hanes. Roedd dau dîm o enethod blwyddyn 4 i 6 yn cynrychioli'r ysgol. Roedd tîm B yn anlwcus i beidio mynd ymlaen i'r rownd cyn derfynol. Ar y llaw arall, aeth tîm A holl ffordd i'r rownd derfynol ac ennill yr holl gystadleuaeth. Ymlaen a nhw i Aberystwyth ym mis Mai i gystadlu'n genedlaethol!



**Kariad**
Cafodd dosbarth Llywelyn Sioe Hud a Hunan Hyder gan 'Kariad' yn ddiweddar. Mwynhaodd y plant ddysgu triciau hud a lledrith newydd a thrafod eu teimladau. Diolch i Karen Hughes a Hunaniaith am gynnal a threfnu'r sioe i'r plant.

**Wythnos Iechyd Meddwl Plant**
Yn ystod wythnos Iechyd Meddwl Plant, bu dosbarth Ffrydlas yn dathlu eu llwyddiannau a meddwl am resymau i fod yn falch o'u hunain. Cawsom fore llawn hwyl yn chwarae gemau a thrafod ein balchder tuag at ein gwaith ysgol, ffrindiau, teulu a llwyddiannau tu allan i'r ysgol.



**Eisteddfod Yr Urdd**
Da iawn i'r criw a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Cylch yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Ymdrech wych gan y Parti Unsain a Parti Llefaru. Llongyfarchiadau i Barti Ffrydlas a ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth parti llefaru. Rydym yn falch iawn ohonoch.

**Dydd Miwsig Cymru**
Ar Ddydd Miwsig Cymru, bu dosbarth Ffrydlas yn gwrando ar gerddoriaeth Cymraeg, ymchwilio i fandiau o Gymru a yn recordio 'podcast' am eu hoff ganeuon Cymraeg. Roedd hi'n braf gwrando ar eu brwdfrydedd wrth iddynt fynegi barn a dathlu eu Cymreictod.

**Dathlu'r flwyddyn newydd Tsieineaidd**
Cafodd dosbarth Idwal wythnos hyfryd yn dysgu mwy am y ffordd mae pobl yn dathlu'r flwyddyn newydd Tsieineaidd. Cafwyd cyfle i ysgrifennu rhifau ac ein henw gan ddefnyddio'r wyddor Tsieneaidd, creu llusern a dysgu mwy am draddodiadau'r wlad. Roedd pawb wedi mwynhau blasu bwyd Tsieneaidd a cheisio bwyta'r reis a'r saws gyda gweill, dipyn o her! Mae pawb yn edrych ymlaen at ymweld a bwyty Fus yn fuan, cewch yr hanes yn y rhifyn nesaf!



**Melin Llynon**
Aeth dosbarth Llywelyn i ymweld â Melin Llynon a Bryn Celli Ddu ar ddechrau'r hanner tymor er mwyn cefnogi thema'r dosbarth sef 'Pwy oedd y Celtiaid?'. Cawsom gyfle i fynd i mewn i'r tai crwn a dysgu mwy am sut oedd y Celtiaid yn byw 2,000 o flynyddoedd yn ôl. Diddorol iawn!



**Ardal tu allan dosbarth Ffrydlas**
Mae dosbarth Ffrydlas wedi bod yn brysur iawn yn ystod y mis yn plannu llysiau yn yr ardal tu allan. Diolch yn fawr i 'Blagur' am yr adnoddau ac i 'C.L Jones' am y compost. Pawb wedi mwynhau gweithio yn yr awyr agored.

## Dydd Gwyl Dewi







# Dathlu Dewi Sant

## Ysgol Penybryn ac Abercaseg






## Ysgol Bodfeurig






# yn Dyffryn Ogwen









## Ysgol Dyffryn Ogwen



## Ysgol Llanllechid



# UN RHES, DAU DDEG DAU O DAI

Gan Andre Lomozik

**RHAN 16**
**10 OGWEN TERRACE, BETHESDA**
(Parhad o rhan 15 rhif 10 Rhes Ogwen rhan 2)

***MARWOLAETH***
***Mr ROBERT JONES, BETHESDA.***
*Bore ddydd Sadwrn diweddaf, yn 52ain mlwydd oed – yn anterth ei ddyddiau – bu farw Mr Robert Jones, Cloth Hall, Bethesda. Pery marwolaeth gynnar Mr Jones dristwch cyffredinol drwy sir Gaernarfon, yn neilltuol yn mhlith y Rhyddfrydwyr. Cafodd Mr Jones gystudd maith am ysbaid saith mis o amser. Elai Mr Jones allan bron bob dydd, a thybid ar brydiau ei fod yn gwella. Ond er ei fod yn feddiannol ar gyfansoddiad cadarn, ymaflodd y parlys ynddo, ac anfynych y medr neb ymryddhau o grafangau haiarnedd y gelyn hwn. Yr oedd Mr Jones yn ŵr o ynni anghyffredin, ac ofnir iddo orweithio ei hun.*

*Adwaenid yr ymadawedig yn bell ac agos fel gŵr hynaws, caredig, a haelionus. Yr oedd yn Rhyddfrydwr wrth natur, a chyflawnodd rymuster dros ei egwyddorion. Gwrthododd blygu i'r 'ddelw fawr.' Safodd fel dyn yn ngwyneb gŵg a sarhad gwrthwynebwyr dialgar. Er yr 'etholiad mawr' – adeg ym ddeffroad Cymru yn 1868 – ni fu neb yn fwy diflin ac eiddgar na Mr Jones dros Ryddfrydiaeth. Teithiodd lawer i bwyllgorau, cynadleddau, a chyfarfodydd Rhyddfrydol yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf. Gwybydd y cyfarwydd a'r craffus yn hanes Arfon am y cyfnod crybwylledig faint o aberth a gynhwysai hynny. Un etholiad, malurwyd ffenestri ei annedd, a lluchiwyd cerrig i ystafelloedd ei dŷ; ond parhau yn bleidiwr i ryddid a wnaeth Mr Jones. Yn y flwyddyn 1888, cydnabyddwyd hynny yn ffurfiol, ac etholwyd ef yn llywydd Cymdeithas Bethesda. Ynglŷn â'r achos a fawr garai, gwariodd arian ac ynni lawer. Yr oedd yr ymadawedig, hefyd yn noddwr haelionus i achos addysg. Gwasanaethodd fel cadeirydd i bwyllgor Ysgol Frytanaidd y Carneddi am flynyddoedd meithion. Perthynai Mr Jones i'r Trefnyddion Calfinaidd, ac yr oedd yn flaenor parchus yn eglwys Jerusalem; ac yn fab i'r hen bregethwr adnabyddus, y Parch. D. Jones, Beddgelert. Yn y cylch crefyddol, megis mewn amryw gylchoedd eraill, teimlir chwithdod a cholled fawr ar ei ôl. Nid oes angen hysbysu iddo wasanaethu ar y Bwrdd Lleol am fynyddai, o blegid amhosib oedd i ŵr blaenllaw fel Mr Jones ym ddiogi yn ngwasanaeth ei gydwladwyr.*

*Ddoe (dydd Mawrth) dodwyd ei gorph i orphwys yn mynwent Glanogwen. Ymddengys y manylion yr wythnos nesaf. Dymunwn ddatgan ein cydymdeimlad llwyraf a'i weddw a'i amddifaid yn eu trallod blin. Ac uwch ben bedd Mr Robert Jones, eiddunwn 'Heddwch i'w lwch.'--- Gohebydd*



HIR A THODDAID
(BEDDARGRAFF Y DIWEDDAR Robert Jones, Cloth Hall, Bethesda, Arfon. Buddugol).
Hyglod fasnachwr, noddwr rhinweddau,
O barod dalent oedd Robert olau;
Oedd flaenor ffyddlawn, uniawn ei ddoniau.
Ac athraw didwyll mewn gweithrediadau;
Rhoes ei groesawgar seigiau – ŵr hael, pur,
Siriol; wawr gysur i lu rhag eisiau.

Caernarfon. DEWI GLAN TEIFI.

Yn 1890 mae Mrs Robert Jones yn mynd â Griffith Roberts, Carneddi, Bethesda i'r Llys Mân-ddyledion ym Mangor oherwydd ei ddyled am nwyddau gwerth £14, a werthwyd i'w wraig gyntaf, a hefyd i'w wraig bresennol. Mae Griffith Roberts yn gwadu na wyddai ddim am ddyled y wraig gyntaf hyd nes iddo fynd i Cloth Hall i ymofyn dillad ar gyfer ei chladdedigaeth. Mae'r barnwr yn dweud na allai Mrs Roberts hawlio yr hyn oedd yn ddyledus i'r wraig cyntaf, ac felly mae'n gostwng y ddyled o £8 i £6. Gyda golwg ar y gweddill, mae'n rhoi'r achos i'r cofrestrydd i'w benderfynu.

Roedd 9 o bobl yn byw yn y tŷ ar noson y cyfrifiad (1891), sef Jane, yn ben teulu, ac yn 55 oed, Ann Mary y ferch hynaf yn 30 oed, Mary Jane yn 28 oed a Nellie y ferch ieuengaf yn 22 oed. Roedd Elizabeth Williams yn nodi mai morwyn ydoedd, ac yn ddilledydd. Ganwyd hi yn y Rhyl ac roedd yn 25 oed. Mae John Hughes, a oedd yno adeg cyfrifiad 1881 bellach yn rheolwr/dilledydd ac yn 35 oed, wedi ei eni yn Sir Fôn. Cawn ddau was arall wedi eu geni ym Methesda, sef Richard M. Williams, 16, a Hugh Williams, 15, y ddau yn nodi mai dilledyddion oeddynt. Yna mae Margaret Ann Williams, yn forwyn 17 oed ac wedi ei geni yn Llanllechid, ac Elizabeth A. Hughes, wedi ei geni ym Methesda.

Yn 1894 mae cofnod o briodas Nellie gyda Jonathan Pritchard yn ymddangos yn *Y Drych*, 5 Gorffennaf, 1894. 'Mehefin 13, yn Bethesda, Arfon, priodwyd Jonathan Pritchard, goruchwyliwr yn y Felin Fawr, a mab hynaf D. Pritchard, Bryndwerwn, prif oruchwyliwr Chwarel y Penrhyn, a Miss Nellie Jones, trydydd ferch y diweddar Mr Robert Jones, Cloth Hall, Bethesda. Yr oedd arwyddion amlwg o lawenydd i'w gweld yn y gymdogaeth, yn neilltuol yn y Felinfawr, lle mae y priodfab yn hynod gymeradwy gan y gweithwyr.'

Yn Ebrill y flwyddyn ganlynol cawn y newyddion o enedigaeth merch i'r cwpwl. 'Pritchard – Ebrill 18, yn Cloth Hall, Bethesda, priod Mr J. Parry Pritchard, Brynderwen, ar ferch.'

Mae Jane yn dal i fyw yn rhif 10 yng nghyfrifiad 1901, gyda ychydig o newidiadau i'r teulu. Roedd Ann M. Jones y ferch hynaf yn 40 oed ac yn sengl. Erbyn hyn mae John Hughes yn ddilledydd a rheolwr y siop, a Mary, ail ferch Jane, wedi priodi ers Rhagfyr 29ain, 1892, yng Nghapel Jerusalem, Bethesda. Ganwyd mab iddynt ar y 1af o Ebrill, 1894, ond bu Robert Emrys farw ar y 7fed o Ebrill, 1900 yn bum mlwydd a deng mis oed. Ychydig fisoedd wedyn cawn hysbysiad fis Hydref o enedigaeth merch o'r enw Morfydd iddynt.

Roedd Morfydd yn chwe mis oed yng nghyfrifiad 1901. Roedd John R. Thomas, 20 oed o Benrhyndeudraeth yn brentis dilledydd, a William D. Roberts o Fethesda, yntau yn gwas/dilledydd. Merch o'r enw Mary Annie Williams, 27 oed ac yn sengl, oedd y forwyn, ac wedi ei geni ym Methesda. Roedd pawb heblaw am Jane yn ddwyieithog.

Fis Rhagfyr 1901 mae swyddogion Jerusalem (MC), Bethesda yn rhoi hysbyseb yn *Y Goleuad* am organydd, ac mae'r ymgeisydd i nodi cyflog, amgáu dau dystlythyr, ac i sefyll arholiad ('*Test Exam*'). Roedd y ceisiadau i fod mewn llaw erbyn Rhagfyr 10fed, wedi eu marcio, *'Organist'* a'u hanfon at John Hughes, Cloth Hall, Bethesda.

Nos Sadwrn, Medi 1908, cynhaliwyd Gŵyl Gystadleuol yng Ngharmel, Llanllechid. Côr Meibion, Parti dan arweiniad Mr John Roberts, Cloth Hall, Bethesda yn cael ei enwi fel enillwyr un o'r adrannau.

Dyma ni wedi dod at flwyddyn a chyfrifiad 1911. Ynddo cawn yr wybodaeth ganlynol: Jane Jones, pen teulu, ac yn weddw, John Hughes, mab yng nghyfraith, Mary Jane ei wraig, gyda dau o'u plant sef Morfydd a Cedric Gwynant Hughes. Hefyd Ann Mary Jones, merch Jane, ac un forwyn sef Annie Roberts o Lanllechid. Roedd yno hefyd ar ddydd y cyfrifiad letywr o Borthmadog, sef Kate Williams, ac roedd hi yn nodi mai dilledydd ydoedd. (i'w barhau- mis nesaf rhif 11 Rhes Ogwen).

# Y Gerlan

**Penblwydd arbennig**
Penblwydd hapus arbennig iawn i Elen Williams, Stryd y Ffynnon yn 18 oed. Dwi'n siŵr dy fod wedi cael dy sbwylio ar dy ddiwrnod arbennig gan mam a dad a'r teulu. Gobeithio dy fod wedi mwynhau'r dathlu.

Un arall a fu'n dathlu carreg filltir arbennig oedd Hedd Williams, Tai'r Cae Gerlan (Teulu Nant y Tŷ'n wreiddiol) a fu'n dathlu ei ben-blwydd yn 80! Dwi'n deall bod y teulu wedi paratoi parti arbennig i chi Hedd a dwi'n siŵr eich bod wedi mwynhau'r gwledda a'r dathlu. Mae Hedd yn parhau yn un o gefnogwyr mwyaf brwd Tîm Pêl Droed Wrexham ac yn edrych yn dda yma yn ei ddillad cefnogi!



Hedd Williams

**Seren y Sgrîn!**
Mae Patrick Rimes o'r Gwenydd yn gerddor enwog ac yn ymddangos yn aml ar y radio, teledu a llwyfannau led-led y wlad a thu hwnt. Os oeddach chi'n gwylio Sunday Brunch yn ddiweddar ar Sianel 4, mae'n bosib y basa chi wedi ei weld yn perfformio Cân y Morwr efo Bryn Terfel ar y rhaglen. Mae gweld a chlywed rhywun o'r pentref ar y cyfryngau bob tro yn dod a gwên i fy ngwyneb a theimlad o falchder mawr o weld llwyddiant person lleol. Llongyfarchiadau unwaith eto Patrick.

**Llythyr gan yr Eisteddfod Genedlaethol**

Annwyl gyfeillion,

Rydw i'n ysgrifennu atoch gyda phum mis yn unig i fynd i'ch gwahodd chi i gyd i ymuno â ni ym Mharc Ynysangharad, Pontypridd o 3-10 Awst eleni ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf.

Eleni yw'r tro cyntaf i'r Eisteddfod gael ei chynnal yn ein hardal ni ers 1956, ac rydyn ni'n benderfynol o sicrhau ei bod yn ŵyl gyfeillgar a chroesawgar sy'n ddathliad o'r cyfraniad enfawr mae'r tri chwm wedi'i wneud i Gymru a'n diwylliant dros y blynyddoedd.

Yn wir, mae cysylltiad ein hardal â'r Eisteddfod yn eithriadol o gryf, gan mai yn Aberdâr y cynhaliwyd yr Eisteddfod fodern gyntaf yn 1861, ac rydyn ni'n eithriadol o falch o'r cysylltiad pwysig hwn gyda'r Brifwyl. Rydyn ni hefyd yn ymfalchïo yn y rôl flaengar a chwaraeodd ein hardal wrth sicrhau a datblygu addysg Gymraeg, ac mae cynnal yr Eisteddfod yn lleol yn gyfle i ni ddathlu hyn ar draws ein cymoedd.

Erbyn hyn, mae stondinau ar gael a'r maes carafanau'n prysur lenwi, a'r dyddiadau cau ar gyfer ein cystadlaethau cyfansoddi'n agosáu. Byddwn yn cyhoeddi rhagor o fanylion am ein rhaglenni'n fuan, gyda phopeth yn cael ei gyhoeddi'n derfynol wrth i ni ddathlu mai 50 diwrnod yn unig fydd i fynd tan yr Eisteddfod ym mis Mehefin.

Rydyn ni'n codi ymwybyddiaeth a chodi arian ers misoedd lawer, ac mae'r cyfnod o gyni ariannol a'r argyfwng costau byw wedi cael effaith fawr ar hyn, yn arbennig yn ddiweddar. Felly, wrth eich gwahodd chi i ymuno â ni am yr wythnos eleni, hoffwn hefyd eich gwahodd i'n helpu ni i gyrraedd y nod, er mwyn sicrhau llwyddiant yr Eisteddfod Genedlaethol yn ein hardal ni.

Mae cyfle o hyd i gynnig gwobr, sydd, wrth gwrs yn ffordd ardderchog o anrhydeddu neu gofio am rywun sy'n annwyl i chi, neu sydd wedi gwneud cyfraniad mawr i faes neu gelfyddyd. Gellir gwneud hyn ar-lein ar wefan yr Eisteddfod, gyda'r holl broses yn hawdd a syml. Gallwch hefyd gyfrannu i'r Gronfa Leol drwy ddolen ar dudalen 2024 ar ein gwefan, ac eto, mae'n ffordd hawdd o'n cefnogi ni yma yn ardal Rhondda Cynon Taf.

Gallwch hefyd anfon siec yn daladwy i Eisteddfod Genedlaethol Cymru at Oriel Hughes, Swyddfa'r Eisteddfod, 40 Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd CF14 5DU, neu dalu drwy BACS. Manylion y cyfrif yw HSBC Eisteddfod Genedlaethol Cymru | Cod didoli: 40-16-13 | Rhif y cyfrif: 61455613, ac yna anfonwch ebost at oriel@eisteddfod.cymru i gadarnhau popeth fel ein bod yn gallu datgan ein gwerthfawrogiad a nodi pob cyfraniad dros £50 yn y Rhaglen Swyddogol eleni.

Rwy'n mawr obeithio y gallwch ymuno â ni ym Mhontypridd ym mis Awst, a diolch o galon i bawb am eu cefnogaeth i ni fel tîm dros y misoedd diwethaf. Rydyn ni'n gofyn yn garedig i chi am eich cefnogaeth un tro olaf er mwyn i ni gael sicrhau ei bod hi'n wythnos ac Eisteddfod i'w chofio a'i thrysori yma yn Rhondda Cynon Taf eleni.

Gyda diolch,

**Helen Prosser**
**Cadeirydd Pwyllgor Gwaith, Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf**


L. STURRS
A'I FEIBION
SEFYDLWYD YN 1965
ADEILADWYR
HEN IARD STESION,
FFORDD Y STESION, BETHESDA
FFÔN: 600953
isturrs@googlemail.com

Owen's Tregarth
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr
Cludiant Preifat a Bws Mini
01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

BARBWR OGWEN
Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Alison

Gareth Williams
TREFNYDD ANGLADDAU
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

ARBENIGWR MEWN LLORIAU COED CALED
A.G.L.
Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117
Symudol: 07835487909

## Llandygái

**Iona Wyn Jones,** 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU
(01248 354280) ionawynbangor@gmail.com

**Cydymdeimlo.**
Drwg iawn oedd clywed am golli Beryl Hughes o'r Bryn.

Bu farw 9ed o Chwefror yn ei Chartref yn 86 oed.

Rydym yn cydymdeimlo gyda'r plant Wendi, Philip ac Ian

a'u teuluoedd yn eu colled,

Bu'r Angladd yn Eglwys Llandygai lle'r oedd yn aelod.



**Enillydd hapus Raffl Santes Dwynwen 2024, sef Liz Bestwick o Fethesda**

**Iechyd Da!**
Liz Bestwick o Ffordd Penybryn Bethesda oedd enillydd teilwng siampên Santes Dwynwen eleni. Mae Liz yn aelod ffyddlon o'r gynulleidfa, pob amser yn barod ei chymwynas. Llongyfarchiadau mawr iddi!

### Eglwys Sant Tegai, Llandygai

**Genedigaethau**
Braf yw cael llongyfarch dau deulu yn gysylltiedig ag Eglwys St Tegai. Ar Ionawr 27ain ganwyd Efa Wyn Llewelyn Atkinson i Gwenan a Peter sy'n byw yn Ealing ond wedi cadw aelodaeth yn St Tegai. Mae Elin wedi gwirioni efo'i chwaer fach newydd. Hefyd, mae ail fabi wedi cyrraedd i Zoe Marshall, un o glochyddion selog yr eglwys a'l chymar Steve. Rydym yn gyrru ein dymuniadau gorau i'r newydd-anedig ac i'w teuluoedd.

**Atgyweirio yr adeilad**
Ymwelodd pensaer treftadaeth a syrfëwr meintiau â'r eglwys ym mis Chwefror fel rhan o'r broses o baratoi gwaith atgyweirio Cam 2. Fe gofiwch mai wal ogleddol o'r gangell a gafodd sylw yng Ngham 1, felly bydd yr adroddiad proffesiynol yma o gymorth i benderfynu ystod y gwaith a'r gost arfaethedig cyn symud ymlaen i gynllunio y cam nesaf.

**Profedigaeth**
Trist yw cofnodi marwolaeth Beryl Hughes, Bryn, Llandygai yn dawel yn ei chartref ar Chwefror 9fed. Yn dilyn gwasanaeth yn yr eglwys ar Chwefror 19eg, rhoddwyd i orffwys yn y fynwent. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda ei phlant, Wendi, Philip ac Ian, a'i wyrion.

**Gwasanaethau**
Ar y Sul
Mae'r gwasanaethau St Tegai am 11.00 ar yr ail a'r pedwerydd Sul yn y mis. Gweler rota eglwysi Bro Ogwen ym mhorth yr eglwys.

Ar Ddydd Mercher

Gwasanaeth 10.15, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher yn y mis (sef 8fed a'r 22ain). Os na ddymunwch fynychu'r gwasanaeth, mae dal croeso i chi ymuno â ni am y baned a sgwrs sy'n dilyn.

Yr Wythnos Fawr a Sul y Pasg

Sul y Fam, Mawrth 10fed am 11 o'r gloch Boreol Weddi

Sul y Pasg Mawrth 31ain Cymun am 11 o'r gloch. Croeso cynnes. Dewch draw i ddathlu!

Mae Gwasanaethau Bro Ogwen ym mis Mawrth i gyd ar boster ym mhorth yr eglwys.

**Rhodd Pasg**
Derbynir yn ddiolchgar unrhyw roddion drwy siec yn daladwy i Eglwys Llandegai Church, neu arian parod mewn amlenni trwy'r blwch postio i'r swyddogion; Ann E. Williams (Warden y Ficer), Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor, Gwynedd. LL57 3EF Nerys Jones (Ysgrifennydd yr Eglwys a Sacristan), 2 Bryn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd. LL57 4LD neu Edmond Douglas Pennant (Trysorydd a Warden y Bobl), Lodge Drws Melyn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd LL57 4HU. Os gwelwch yn dda a wnewch chi ysgrifennu enw llawn, cyfeiriad ac ebost ar eich rhodd: mae'n bosib hawlio Rhodd Cymorth am gyfraniadau cymwys.

Wrth gwrs mae'n bosib talu drwy drosglwyddiad banc (Cyfrif yr Eglwys: 30-90-43 00098435.

Diolch i bawb o'r ardal sydd wedi dangos diddordeb neu wedi cyfrannu eisoes i'n hachos

**Gwasanaethau**
Ar y Sul
Mae'r gwasanaethau St Tegai am 11.00 ar yr ail a'r pedwerydd Sul yn y mis. Gweler rota eglwysi Bro Ogwen ym mhorth yr eglwys.

Ar Ddydd Mercher

Gwasanaeth 10.15, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher yn y mis. Os na ddymunwch fynychu'r gwasanaeth, mae dal croeso i chi ymuno â ni am y baned a sgwrs sy'n dilyn.

**Manylion Cyswllt**
Y Parch Ddr Gareth Lloyd yw ein Arweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen felly gofynnwn i chi gysylltu'n uniongyrchol ag ef ar 01248361521 neu gareth.lloyd@cantab.net ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.

# Plaid Cymru Dyffryn Ogwen

Mae Plaid Cymru Dyffryn Ogwen wedi gorffen blwyddyn brysur arall gyda Chyfarfod Blynyddol yng Nghefnfaes ar 22 Chwefror, gan osod y llwyfan ar gyfer y flwyddyn i ddod. Etholwyd y Cynghorydd Einir Williams yn Gadeirydd, gyda'r Cynghorydd Beca Roberts yn Is-gadeirydd.

Uchafbwynt y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol oedd y drafodaeth dreiddgar gyda Hywel Williams, ein Haelod Seneddol, a fydd yn ymddeol pan ddaw'r etholiad cyffredinol. Rhannodd Hywel rai o'i brofiadau o'i yrfa helaeth fel ymgyrchydd ar gyfer y Blaid. O Gymru i Lundain, bu'n swyno'r gynulleidfa â straeon gafaelgar. Mynegodd aelodau'r gangen eu diolch iddo am ei ymroddiad a'i waith diflino dros bobl Dyffryn Ogwen ac Arfon dros y blynyddoedd.

Bu'r gangen yn brysur dros y flwyddyn a fu, gan gynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys boreau coffi, cwis tafarn bywiog, a bore cyfnewid dillad llwyddiannus. Diolchwyd i'r aelodau gweithgar a drefnodd ac a wirfoddolodd ar gyfer y digwyddiadau hyn, ac i bawb a gyfrannodd at eu llwyddiant.

Wrth edrych ymlaen, mae'r criw wedi cynllunio bore coffi ar fore Ebrill 6ed yng Nghefnfaes a noson blasu cwrw ar Fawrth 7fed ym Mragdy Ty Mo. Bydd y digwyddiadau hyn yn gyfle i gymdeithasu, gan atgyfnerthu ysbryd bywiog Plaid Cymru Dyffryn Ogwen yn y flwyddyn i ddod. Mae'r noson yn y Bragdy er budd ymgyrch etholiad cyffredinol Catrin Wager, ac yn gyfle i aelodau ac eraill gwrdd â'r ymgeisydd gan edrych ymlaen i ymgyrchu gyda Catrin.

## Cyngor Cymuned Llandygai

Cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol o'r Cyngor ar nos Fercher, 21ain o Chwefror yn rhithiol dros Zoom.

**Llwybr Rhif 3 – Siambra Gwynion heibio Fferm Lon Isaf i Tyrnpeg Lon Isaf**
Adroddwyd fod Swyddog Llwybrau, Cyngor Gwynedd yn edrych i mewn i gael ychwaneg o arwyddion ar hyd y llwybr hwn. Cafodd y mater hwn ei godi yn wreiddiol ym mis Ebrill 2020.

**Seddi Gwag**
Adroddwyd fod dwy sedd wag ar y Cyngor Cymuned – un sedd Ward St Anns (Mynydd Llandegai) ac un sedd Ward Llandygai. Os hoffech chi wneud gwahaniaeth i'ch cymuned leol yna cysylltwch â'r Clerc am fwy o wybodaeth – ebost cyngorllandygai@ogwen.org neu 01248 602131.

**Arhosfan Bws Llys y Gwynt**
Nodwyd fod y Clerc wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd i holi am y posibilrwydd o gael arhosfan bws ger Llys y Gwynt, ond ni dderbyniwyd ymateb hyd yn hyn. Nodwyd fod y Clerc wedi danfon llythyr at bennaeth yr adran amgylchedd, Dafydd Wyn Williams, Cyngor Gwynedd i amlygu pryderon y Cyngor Cymuned am y diffyg gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus yn Llys y Gwynt, ac i ofyn am gyfarfod i drafod ymhellach. Diolchodd y Clerc i'r Cyngr. Dafydd Owen a Dafydd Roberts am eu cymorth gyda'r mater.

**Gwasanaeth 67S Dydd Sul**
Cadarnhawyd fod y gwasanaeth hwn yn darfod ar y 25ain o Fawrth. Nodwyd bydd y gwasanaeth T10 dal i redeg ar ddydd Sul, ond ei fod ddim yn mynd drwy Rachub a Tregarth. Penderfynwyd bydd y Clerc yn holi am y posibilrwydd o greu arhosfan bws ar 'Bont Halfway', oherwydd nid oes arhosfan o gwbl rhwng Bethesda a'r Bryn ger pentref Llandygai, felly nid oes modd i drigolion Tregarth defnyddio'r gwasanaeth. Y Clerc i drafod hyn gyda Dafydd Wyn Williams, Cyngor Gwynedd, yn dilyn ein cais am gyfarfod ynglŷn â Llys y Gwynt (uchod).

**Bont ar y ffordd B4409 ger Moelyci**
Nodwyd fod y Cyngor Cymuned wedi gwneud cais am system blaenoriaeth unffordd yn y man uchod – Nodwyd fod Andrew Gregson wedi ymgymryd ag arolwg bras o system blaenoriaeth yn yr ardal ac efallai bod modd i weithredu ar gynllun. Yr unig ystyriaeth oedd ganddynt ar hyn o bryd (heblaw am y gost) yw mai dim ond y cyngor cymuned sydd wedi codi hwn fel pryder. Nid oes yr un cwyn wedi ei dderbyn gan y cyhoedd am y problemau yr ydym wedi ei amlygu. Mae'n hanfodol bod unrhyw welliannau i'r rhwydwaith yn un ai diwygio diogelwch neu lif traffig, ac yn cynnwys tystiolaeth glir bod y cynllun am fod yn effeithiol ac yn werth am arian. Cytunwyd bydd y Clerc yn trafod y mater ymhellach gydag Andrew Gregson, Cyngor Gwynedd.


Mi fydd y cyfarfod cyffredinol nesaf yn cael ei gynnal ar y 14eg o Fawrth am 18.30 yn Ganolfan Tregarth.



## Beics Ogwen yn ail-ddechrau ar gyfer y Gwanwyn

Gyda prosiect Dyffryn Caredig a ariennir gan Gronfa Gymunedol y Loteri nawr yn canolbwyntio ar Drafnidiaeth Gymunedol, mae aelod newydd o staff wedi ymuno â Phartneriaeth Ogwen. Mae Kyle Locke, o Benygroes, newydd ddechrau fel Swyddog Beics ar gyfer y prosiect. Golyga hyn bydd beics trydan ac addasiedig ar gael unwaith eto ar gyfer aelodau'r cyhoedd a grwpiau cymunedol lleol. Mae Kyle yn treulio cyfnod anwytho ar hyn o bryd a bydd y sesiynau beicio cymunedol a'r sesiynau gweithdy yn ail-ddechrau ar ôl y Pasg. Meddai Kyle "Dwi'n hapus iawn cael y cyfle yma i helpu trigolion y Dyffryn ac ymwelwyr gael defnyddio ein e-feiciau ac i helpu efo sesiynau cymunedol yn y Clwb Rygbi mewn partneriaeth efo Cwmni Byw'n Iach a'n partneriaid eraill, Cymdeithas y Deillion a Chwaraeon Anabledd Cymru. Cysylltwch â fi os ydy chi eisiau dysgu mwy am ein cynlluniau a'n fflyd acw'n Beics Ogwen".

**Beics@ogwen.org 07394906036**


CHRIS GRIFFITHS CYF

Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu
18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369
neu 07813 455653

DAFYDD CADWALADR
CYNHYRCHION COEDLANNOL
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed Asiant system gwresogi trwy losgi coed
01248 605207

Elwyn Jones & Co
hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP
- Cyfreithwyr -
123 Stryd Fawr Bangor Gwynedd
(01248) 370224
*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*
*Swyddfeydd eraill:*
Llangefni (01248) 723106
Porthaethwy (01248) 719517
Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616
Pwllheli (01758) 703000

JOHN ROBERTS
Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr

**Symudol:** 07747 628650
**Ffôn:** 01248 600995

Cegin Karen
Cacennau, Peis a Sawrus
Te Prynhawn a Bwffe ar gael
@CeginKaren Tel: 07886 560781
Ebost / Email: ceginkaren@btinternet.com

# CHWILAIR



## CANEUON HOGIA'R WYDDFA

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| S | A | A | W | F | H | P | R | I | L | E | J | L | C | M | B | V | B | H | X |
| A | T | J | U | I | S | E | V | S | L | H | E | I | O | M | G | V | H | M | D |
| F | Y | W | H | U | Z | N | M | X | A | V | A | D | F | D | N | A | P | A | U |
| W | L | Q | D | U | S | T | O | F | N | R | P | Y | E | Q | Z | G | R | H | C |
| N | L | U | O | M | W | R | N | O | C | Y | R | I | R | A | S | Z | U | T | F |
| Y | U | D | E | X | U | A | I | P | I | W | R | H | C | C | Q | H | W | E | H |
| N | A | O | D | Y | E | B | D | D | F | E | G | E | H | O | M | H | E | P | T |
| Y | N | N | D | T | C | A | D | A | A | B | N | B | W | C | U | U | J | P | L |
| B | O | O | D | T | M | C | R | L | N | I | Y | I | I | V | V | D | C | B | B |
| W | D | R | I | F | R | H | E | W | C | M | T | F | L | O | G | J | V | I | I |
| L | R | A | M | R | X | L | G | Y | O | A | N | I | I | M | H | T | T | O | S |
| C | K | D | A | O | P | L | N | H | L | D | E | W | O | R | C | M | K | C | B |
| H | O | R | R | R | C | A | A | C | Y | Y | L | X | V | R | Y | H | S | T | M |
| R | E | E | O | F | Y | N | A | I | N | G | P | J | D | Z | H | B | C | W | O |
| S | C | B | L | R | A | B | W | B | I | I | I | X | N | I | L | X | J | J | M |
| B | W | A | T | E | X | E | H | S | M | D | D | D | X | K | F | U | P | C | Q |
| Y | O | I | L | F | E | R | R | U | Z | I | D | Q | R | O | C | T | D | G | W |
| S | L | Z | E | B | E | A | J | S | K | O | E | J | C | L | N | L | R | V | O |
| Y | G | W | A | N | W | Y | N | Y | G | D | W | J | P | W | P | G | S | O | W |
| J | J | Q | U | L | F | S | V | B | T | D | G | X | E | U | G | H | S | L | Z |

Yn y Chwilair mis yma MAE DEUDDEG CÂN GAN HOGIA'R WYDDFA. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 29 Mawrth. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr. **Cofiwch nad oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu gerdyn yn iawn.**

Mae fy niolch yn fawr iawn y mis yma i Emrys Griffiths, Rhosgadfan am awgrymu'r testun ar gyfer y Chwilair. Nid oes cyn gymaint o bwysau arnaf i ddod o hyd i destun wrth dderbyn awgrymiadau ar gyfer y Chwilair.

Er mai fi sydd yn gosod y Chwilair o fis i fis, unwaith rwyf wedi ei anfon ymlaen i'r golygydd rwyf yn tueddu i anghofio amdano, ac felly y mis diwethaf rhois gynnig ar gael hyd i'r atebion. Enwau lleoedd ar gerrig coffa eglwys St Cedol, ac mae'n rhaid cyfaddef mae dim ond pump 'roeddwn yn gallu ddarganfod, felly dwi yn edmygu pob un ohonoch sydd yn darganfod yr holl atebion.

**Dyma atebion Chwilair Chwefror:-** Allt Uchaf; Beudy Newydd; Bryn Draenog; Careg y Fedwen (Cae'r Gyfedwen, llithriad ar fy rhan I) Dolgoch; Goetra Isaf; Hafod yr Haf; Maes Meddygon; Pant y Cyff; Rallt Uchaf; Tros y Gamdda; Usgubor Isaf.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd hyd i'r atebion cywir:-** Rosemary Williams, Tregarth; Elizabeth Buckley, Tregarth; Doris Shaw, Bethesda; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Eirwen Owen, Erw Las; Nia Wyn Bagnall, Llandygai.

**Enillydd Chwefror oedd:-** Eirwen Owen, Erw Las, Bethesda.

# Natur o'n Cwmpas



## Eithin

Mae digonedd o lwyni eithin i'w gweld yn Nyffryn Ogwen gan fod y planhigyn hwn yn bur gyffredin ar weundiroedd ac ar gloddiau pridd. Perthyn i deulu coed pys mae'r eithinen, ac yma yn ein hardal ni mae dwy rywogaeth yn ffynnu – yr eithinen Ffrengig, sef yr eithinen gyffredin (*Ulex europaeus*) ac eithinen y gorllewin (*Ulex Gallii*) a geir yn y gwledydd Celtaidd.

Y gwahaniaeth amlycaf rhwng y ddau fath ydy bod yr eithin Ffrengig yn blodeuo o Ionawr i Fehefin (er y gall o bryd i'w gilydd flodeuo drwy'r flwyddyn), ac eithin y gorllewin o Orffennaf hyd Dachwedd. Hyn a roddodd fod i'r gred fod yr eithinen yn blodeuo ddwywaith y flwyddyn, a hefyd i'r hen goel direidus 'Pan nad yw'r eithin yn blodeuo, nid yw yn dymor cusanu'. Ceir gwahaniaethau eraill. Mae blodau'r eithinen Ffrengig o liw melyn goleuach na rhai eithin y gorllewin. Hefyd, yr eithinen Ffrengig ydy'r fwyaf o'r ddwy o ran maint. Bydd hi'n tyfu hyd at 2m o uchder, a hyd at 3m ar dro, Mae'r llwyni eithin Ffrengig ar lan afon Ffrydlas uwchlaw Cerrig y Rhyd ger Tan y Foel yn hynod o dal, efo boncyffion praff. Dim ond hyd at 1.75m y bydd eithinen y gorllewin yn tyfu.

Mae gennym hen rigwm amaethyddol sy'n ymwneud ag ansawdd pridd a'i werth i'r ffermwr:

Aur dan y rhedyn,
Arian dan yr eithin,
Newyn dan y grug.

Mae'r eithinen yn rhan bwysig o'r drefn ecolegol. Mae hi'n lloches ddiogel i'r ysgyfarnog wneud ei gwâl a magu ei lefrod. Hefyd, bydd rhai adar yn nythu mewn eithin – yn enwedig clochdar y cerrig a melyn yr eithin – a phan fydd ffermwyr yn gorfod llosgi llwyni eithin er mwyn cyfyngu ar eu hymlediad dros borfa'r defaid ar lethrau'r mynyddoedd, gwneir hynny cyn adeg nythu. Hen arferiad wedi'r llosgi fyddai 'hel poethwal', sef cludo'r bonion duon adref mewn sachau yn olosg ar gyfer cynnau tân.

Bu sawl defnydd arall i eithin yn draddodiadol. Fe'i defnyddid yn derfynau caeau, yn danwydd ar gyfer pobi bara, ac yn ysgubau ar gyfer brwsio lloriau a glanhau simneiau. Byddai garddwyr yn ei ddefnyddio i orchuddio rhesi pys rhag i lygod fwyta'r egin. Hefyd, bu'n fwyd i anifeiliaid fferm, yn enwedig ceffylau, a chyn dyddiau'r felin eithin arferid taro'r eithin efo cerrig i'w falu'n fân gan feddalu'r pigau. Dyma englyn 'Eithin' y bardd John Rowlands o'r Ffôr sy'n darlunio gwas fferm yn dod ag eithin i'w falu yn borthiant danteithiol i'r ceffylau gwedd.

Rhywbeth a gariai Robin – ar ei war
O'r allt, gynt, oedd eithin,
I'w falu gyda'r felin
Yn drêt i Comet a Cwîn.

### Wyddech chi..?

- mai 'glöyn Duw' oedd yr enw 'glöyn byw' yn wreiddiol. Cafodd yr enw ei newid yn y 18g oherwydd bod crefyddwyr o'r farn ei fod yn cymryd enw Duw yn ofer.
- mai 'gwaell y neidr' oedd enw 'gwas y neidr' yn wreiddiol, a hynny oherwydd bod ei gorff yn hir a main fel gwaell (gwellen).
- fod tua 600 o wahanol fathau o wymon i'w cael ar arfordir gwledydd Prydain ac Iwerddon.
- fod rhai adar yn llyncu cerrig er mwyn malu hadau yn y crombil, sef y cwdyn yn y gwddw sy'n derbyn ac yn storio bwyd.

*Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.*

# Cymhorth Costau Byw

**Gwefan newydd i helpu pobl Gwynedd ddygymod â heriau costau byw.**

Gyda'r argyfwng costau byw yn parhau a mwy o bobl yn ei gweld hi'n anoddach nac erioed i ymdopi gyda biliau'n codi, mae Cyngor Gwynedd wedi creu tudalen newydd ar y wefan i helpu.

Bwriad y dudalen yw ceisio sicrhau fod pobl Gwynedd yn derbyn yr holl gymorth, cefnogaeth a chyngor ymarferol maent yn gymwys amdano.

Mae'r dudalen newydd hon yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol ynghylch biliau cartref, budd-daliadau, help gyda chostau ysgol, help i gael bwyd a llawer iawn mwy.

Mae Cyngor Gwynedd yn deall fod costau byw yn fater preifat ac yn gallu bod yn bwnc sensitif, felly gall pobl ddod o hyd i'r holl wybodaeth maent ei angen yn ogystal â rhifau ffôn defnyddiol mewn un lle ar eu ffôn clyfar, dyfais lechen neu gyfrifiadur personol.

Dywedodd Cynghorydd Nia Jeffreys, Dirprwy Arweinydd Cyngor Gwynedd a'r Aelod Cabinet sy'n arwain yr agenda trechu tlodi:

"Yn dilyn cyfnod drud y Nadolig a'r gaeaf oer, yn anffodus mae costau byw yn parhau i godi, felly mae'n amserol i atgoffa pobl Gwynedd lle mae modd iddynt ddod o hyd i'r cymorth sydd ar gael.

"Yn rhy aml, dydi pobl ddim yn sylweddoli pa help sydd ar gael na beth maent yn gymwys amdano. Efallai fod pobl yn colli allan ar bethau fyddai'n gwneud eu bywydau yn haws a mwy cyfforddus ac mae'r dudalen newydd ar y wefan yn cynnwys gwybodaeth eang am gymorth.

"Rwyf yn annog unrhyw un i fynd i ymweld â'r dudalen newydd ble mae popeth ar gael mewn un lle ar flaenau eich bysedd, ddydd a nos."

Gall pobl nad oes ganddynt fynediad i'r we gartref ddefnyddio'r cyfrifiaduron sydd ar gael am ddim yn holl llyfrgelloedd Gwynedd i fynd i'r wefan hon. Mae llyfryn gwybodaeth sy'n darparu gwybodaeth am gadw'n gynnes, cymorth ariannol a chefnogaeth gymunedol yn benodol ar gyfer pobl hŷn Gwynedd hefyd ar gael o lyfrgelloedd y sir.

Mae'r holl wybodaeth ar gael ar www.gwynedd.llyw.cymru/cymorthcostaubyw

Mark Davies
07447804110
Peiriannydd Carafan Teithiol
MD Caravans
Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs
mark@mdcaravans.cymru
MCEA

# Côr y Penrhyn
## gyda Derfel Roberts



# Y Côr yn derbyn ipads ar gyfer ymarferion

Yn dilyn derbyn nawdd gan Elusen Ogwen mae 13 o aelodau Côr y Penrhyn  wedi derbyn ipads i'w defnyddio yn yr ymarferion. Byddant yn gallu lawrlwytho holl ganeuon y côr a bydd hynny'n sicrhau bod llai o bapur yn cael ei wastraffu i greu copïau o'r caneuon.
Dim ond 13 ipad sy' wedi cyrraedd hyd yma ac mae rhai aelodau wedi bod yn gyndyn o'u defnyddio ond darparwyd hyfforddiant gan Alun Davies i grŵp ohonynt er mwyn cynyddu eu hyder yn y dechnoleg.

**Hyder yn cynyddu**
Fel y dywedodd Alun, "Does dim digon o ipads i bawb ar hyn o bryd, ond dydy'r cór ddim yn meddwl y bydd pawb eisiau defnyddio teclynnau o'r fath.  Er hynny, gan y bydd hyfforddiant ar gael i'r rhai sydd ddim yn hyderus ar hyn o bryd, efallai y daw amser pan fydd pob aelod eisiau defnyddio'r cyfarpar yma."

Yn y llun isod gwelir yr aelodau a dderbyniodd hyfforddiant  i ddefnyddio'r ipads yn Ysgol Llanllechid ar noson ymarfer yn ddiweddar.



Llun: Nigel Beidas

**Yr aelodau dderbyniodd hyfforddiant ar yr ipads mewn ymarfer diweddar.**

## Cymeriadau'r Côr

**Cyfres sy'n cyflwyno gwybodaeth am aelodau Côr y Penrhyn.**



1. **Enw llawn** - Meic Wyn Jones
2. **Oed?** - 63
3. **Gwaith?** - Rheolwr adran gwerthu carpedi a lloriau yn Dodrefn a Lloriau Perkins, Caernarfon
4. **O le wyt ti'n dod?** - O Waunfawr ac o Waunfawr erioed!
5. **Tri pheth fyddai'n dy ddisgrifio orau**? - Hwyliog, Cyfeillgar a Mwynhau bywyd
6. **Ers faint wyt ti'n aelod o'r Côr?** - Deunaw mis
7. **Pa lais wyt ti?** - Bariton
8. **Pam wnest ti ymuno â'r Côr?** - Mwynhau canu a chymdeithasu
9. **Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y cor?**- Bendigedig/Benedictus gan Robat Arwyn
10. **Pwy ydy dy hoff ganwr?** - Dafydd Iwan
11. **Be ydy dy farn di am ganu pop?** - Dwi'n mwynhau pob math o gerddoriaeth, ond yn ei gweld yn anodd i ddeall geiriau canu pop dyddiau yma!
12. **Oes gen ti atgof arbennig o berfformio efo'r Côr?** - Cael y fraint o ganu Anthem fy ngwlad, gyda'r Côr yn Stadiwm Y Principality, Caerdydd, cyn gêm Cymru yn erbyn yr Ariannin
13. **Pa ddiddordebau eraill sy gen ti?** - Teithio, bowlio a chefnogi tim rygbi Cymru.
14. **Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y cór yn ei wneud**? - Edrych ymlaen i'r dyfodol.
15. **Unrhyw sylw arall yn ymwneud â'r Côr?** - Ers i mi ymaelodi gyda'r côr, 'rwyf wedi mwynhau a chael fy nghroesawu gan yr aelodau, ac yn teimlo'n gartrefol iawn erbyn hyn.

**Gŵyl Ddewi yn Rhosygilwen**
Ar yr ail o Fawrth aeth Côr y Penrhyn I lawr i ardal  Aberteifi ar wahoddiad perchnogion canolfan Rhosygilwen ger Cilgerran.
Mae'r lle hwnnw yn cynnwys neuadd fawr hardd sy'n atgoffa pobl o neuadd ganoloesol gyda thrawstiau a distiau coed anferth yn cynnal y nenfwd uchel ar ffurf hen eglwys.  Er hynny, adeilad newydd ydy Neuadd Rhosygilwen ac mae'r perchnogion yn cynnal pob math o berfformiadau  yno o opera i ddramau a ffilmiau.
Mae'r ganolfan hefyd yn gallu lletya a bwydo nifer cyfyngedig o westeion.
Canodd y côr ddarnau addas ar gyfer dathlu gŵyl ein nawddsant i gyfeiliant Fran Davies ond ychwanegwyd yn  fawr at berfformiadau'r cór gydag unawdau operatig a Chymreig gan Owain Arwel (Tenor) a Caleb Rhys (Bariton) i gyfeiliant meistrolgar Ross Craigmile.
Ar ddiwedd y perfformiad a barhaodd am ddwy awr a hanner gydag egwyl fer, derbyniodd



Llun: Emyr Roberts

perfformiad  y cór a'r unawdwyr fonllefau o gymeradwyaeth a nifer o aelodau'r gynulleidfa yn dweud eu bod yn gobeithio y daw Cór y Penrhyn I lawr i'r ardal eto y flwyddyn nesaf.

# Difyrion Digidol

Deian ap Rhisiart

Mae iechyd meddwl yn bwnc perthnasol i bawb ohonom ac mae gofalu am ein iechyd meddwl yn aruthrol o bwysig er mwyn hybu iechyd a llesiant yn gyffredinol. Ein gwaith ni yn Cymunedau Digidol Cymru yw dangos manteision y digidol i hybu iechyd a lles. Un wefan sy'n cyflawni hynny'n dda yw Meddwl.org ble ceir cefnogaeth, gwybodaeth a phrofiadau pobl am iechyd meddwl – i gyd drwy gyfrwng y Gymraeg. https://meddwl.org/. Ceir adran o fewn y wefan yn rhannu profiadau mewn erthyglau difyr ac addysgiadol, er engrhaifft, mae Non Parry o fand poblogaidd Eden wedi ysgrifennu blog dan y teitl 'Heddiw':

"Nes i gyflwyno'n hun i Meddwl am y tro cyntaf nôl yn mis Mawrth 2018. Roedd y Non yna dal i frwydro gorbryder dyddiol, iselder ac odd hi di blino...riiiili wedi blino trio just bod yn fi."

O blith yr eitemau dan yr adran greadigol yw cerdd deimladwy i bobl sy'n ei chael hi'n anodd yn ystod y Nadolig, gan Elin Angharad Davies - *'Mae'n iawn'*:

Mae'r adran newyddion yn cynnwys y diweddaraf o ran y digwyddiadau sydd ar y gweill i hybu neu godi arian at gyflyrau iechyd meddwl. Stôr o wybodaeth werthfawr tu hwnt yw'r adran ar anhwylderau sy'n mynd at wraidd y gwahanol gyflyrau fel panig, iselder ac anhwylderau bwyta ac ati.

Yn ychwanegol, fe restrir y triniaethau gwahanol sy'n bodoli fel cwnsela Therapi Gwybyddol Ymddygiadol a Therapi Grŵp i gynorthwyo pobl gyda'u iechyd meddwl. Fe ellir hefyd gysylltu gyda'r gwirfoddolwyr sy'n rhedeg y wefan er mwyn rhannu eich profiadau chi mewn erthygl.

Gwefan arall sy'n llawn o straeon pobl yn ymwneud â iechyd meddwl yw Nerth dy ben. https://nerthdyben.cymru/

Cafodd Alaw Llwyd Owen sy'n wreiddiol o Landdoged yn sir Conwy ddamwain car ddifrifol yn 2018. Un o'r pethau a benderfynodd Alaw wneud wrth wella o'i hanafiadau oedd sefydlu'r platfform hwn sydd yn anelu "i hybu sgwrs a chodi ymwybyddiaeth am nerth y meddwl." Mae'r wefan Nerth Dy Ben yn bodoli i "ysbrydoli ein cymunedau ac unigolion ii rannu'n cryfderau, i gydnabod y pethau dan ni'n gallu eu cyflawni ac i ddathlu'r hyn sy'n ein gwneud ni'n unigryw fel unigolion ac fel cymuned."

Ceir dolenni hefyd am wasanaethau cefnogol sy'n cynorthwyo pobl gyda'u iechyd meddwl.

Mae'r gwefannau hyn yn hanfodol i siaradwyr Cymraeg sy'n teimlo dan straen neu'n pryderu am eu iechyd meddwl. Y mae'n gyfle i rannu profiadau neu ddysgu gan eraill. Felly, ewch da chi i'w gweld!

# Cymdeithas y Cenhedloedd Unedig (CCU) – Cangen Menai

Beth yw pwrpas Cymdeithas y Cenhedloedd Unedig (CCU) a beth mae ei changhennau, fel ein cangen leol, CCU Menai, yn eu gwneud i'w chefnogi?

Ar ôl i ryw 55 miliwn farw yn yr Ail Ryfel Byd, dechreuodd Siarter y Cenhedloedd Unedig gyda'r geiriau, '*Rydym ni, bobloedd y Cenhedloedd Unedig yn benderfynol o achub cenedlaethau'r dyfodol rhag pla rhyfel.*'

Mae'r Siarter yn nodi prif amcanion y Cenhedloedd Unedig, sef: '*cynnal heddwch a diogelwch rhyngwladol trwy fesurau cytundebol; cydweithredu'n rhyngwladol i wynebu problemau economaidd-gymdeithasol, diwylliannol a dyngarol; annog parch at hawliau dynol, a helpu i gyrraedd y nodau cyffredin hyn.*'

Mae gan y Cenhedloedd Unedig strwythur byd-eang o gyrff ac asiantaethau cefnogi. Mae Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig yn cynnwys cynrychiolwyr o bob gwlad i gytuno ar gamau gweithredu a rhaglenni i leddfu tlodi ac anghydraddoldeb, tra bod Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig yn cymryd camau brys dros heddwch a diogelwch. Mae system y Cenhedloedd Unedig yn gweithio trwy greu cysylltiadau rhyngwladol a meithrin consensws ar gyfer cytundebau amlochrog.

Mae eich cangen leol o CCU, cangen Menai, ynghyd â llawer o ganghennau yn y DU, yn ceisio hyrwyddo ac egluro gwaith CCU a hon yw'r unig gangen yng ngogledd a chanolbarth Cymru. Mae CCU-Menai yn cael ei redeg gan wirfoddolwyr sy'n cefnogi'r Cenhedloedd Unedig.

Os hoffech ymuno ag CCU Menai, cyfarfod â phobl newydd a helpu i atgyfnerthu gwaith y Cenhedloedd Unedig i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, newyn, a'r argyfwng hinsawdd, e-bostiwch drysorydd CCU-Menai, Ian Cuthbertson, iancuthbertson60@gmail.com.

# Diwrnod Agored Yr Hen Bost

Hoffai Partneriaeth Ogwen a'r tîm sy'n gweithio ar prosiect Yr Hen Bost ddiolch i bawb a ddaeth i'n diwrnod agored ddydd Sadwrn 17 Chwefror. Roedd yn gyfle gwych i ni drafod y prosiect gyda gymaint o bobl a chael eu mewnbwn a'u syniadau. Hoffem hefyd ddiolch i aelodau ein Grŵp Llywio a gwirfoddolwyr am wneud y diwrnod agored yn llwyddiant.

Byddwn yn estyn allan i grwpiau a sefydliadau ledled Dyffryn Ogwen dros y misoedd nesaf i gael cymaint o adborth a mewnbwn â phosibl ar gyfer datblygiad ein Canolfan Dreftadaeth. Mae'n hollbwysig i ni greu canolfan y gall y gymuned fod yn falch ohoni a theimlo'n rhan ohoni. Os hoffech i un o'n tîm ddod i siarad â'ch grŵp neu fudiad, cysylltwch â robyn@ogwen.org

Byddem wrth ein bodd yn clywed gennych - mae ein holiadur i'w weld ar y ddolen hon: https://forms.gle/auSiAf7N1cpi599s8



## Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk (07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

**Penblwyddi Arbennig**
Bu tri o'r fro yn dathlu penblwydd arbennig yn ystod mis Chwefror. Llongyfarchiadau calonnog i chi oll, a phob dymuniad da :-

Chwefror 13 : Olive Williams, Maes y Garnedd yn 80.

Chwefror 25 : Margaret Llechid Roberts, Ffordd Ffrydlas yn 80 oed. Bu Margaret yn dathlu y diwrnod yn mwynhau gyda'r teulu.

**Ysbyty**
Cofion gorau am wellhad buan at bawb a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar, yn eu plith :-

Phillip Williams, Allt Pen-y-Bryn; John Davies, Tanysgrafell; Delyth Owen, Bryn Caseg; Vera Jones, Glan Ffrydlas.

**Gair o Gydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â sawl teulu a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar :-

Teulu'r diweddar Owen G. Williams, Fferm Bryn Owen a fu farw ar 29 Ionawr.

Hilary a Chris, Stryd y Dŵr. Collodd Hilary ei mam yn Deiniolen, sef y ddiweddar Kathleen Davies yn 94 mlwydd oed.

John Ogwen Jones,Ffordd Coetmor, a hefyd Manon a'r teulu ym Mangor, ar farwolaeth David Andrew Williams ar 19 Chwefror yn 58 oed. Roedd yn briod, tad, taid a mab yng nghyfraith annwyl.



**CYRRAEDD Y CANT**
Ar 17ed o Chwefror cyrhaeddodd Thomas Jones, Tŷ Coetmor, Bryn Bella, garreg filltir arbennig iawn trwy ddathlu ei benblwydd yn gant oed. Cafodd ddiwrnod arbennig iawn yng nganol ei deulu lluosog yn dathlu'r achlysur arbennig hwn.

Dymuna Mr. Jones ddiolch o waelod calon i'w deulu, ffrindiau, cymdogion, a chydnabod am yr holl anrhegion, cardiau, a chyfarchion a dderbyniodd gan bawb, ac mae'n gwerthfawrogi'r holl garedigrwydd. Hoffai, hefyd, ddiolch yn fawr i'r teulu am drefnu parti penblwydd gwerth chweil ar ei gyfer. Cafodd ddiwrnod i'w gofio yn hel atgofion melys am ei fywyd hir, ac roedd digon ohonynt gan fod cof Mr. Jones yn dal yn glir fel grisial.

**Marw**
*Robert Salt Roberts*
Ar 28 Ionawr, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Robert Salt Roberts (Robin Garej) yn 80 oed, ac o Blas Ogwen. Brawd annwyl i Blodwen a'r teulu, Maes y Garnedd, Eric a'r teulu, Braichmelyn, a Helen a'r teulu Ciltwllan, ac yn ewythr caredig. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Mawrth, 19 Chwefror yn Amlosgfa Bangor, gyda'r Parchg. Sara Roberts yn arwain y gwasanaeth. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu.

*Megan Wyn Phillips*
Ym Mhlas Ogwen ar 2 Chwefror, bu farw Megan Wyn Phillips yn 100 mlwydd oed. Roedd gynt o Fangor a Rhes Ogwen, Bethesda. Priod y diweddar Powell Phillips, mam David a'r ddiweddar Enid, a nain garedig i Geraint a Hefin, a hen nain i Oscar. Roedd yn berson llawn hwyl a bob amser yn barod am sgwrs, ac yn selog yng Nghapel Jerusalem. Cynhaliwyd ei gwasanaeth angladdol ddydd Iau, 22 Chwefror yn Amlosgfa Bangor dan arweiniad Y Parchedig Dafydd Coetmor Williams. Rydym yn anfon ein cydymdeimlad at y teulu oll.

**Diolch**
Dymuna Olive, Maes y Garnedd, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phenblwydd yn 80 oed ar 13 Chwefror. Diolch hefyd i Gwyn, Enoch a Begw am drefnu noson ddathlu ardderchog.

## Yr Eglwys Unedig

**Oedfaon**
Diolch yn fawr i'r canlynol am gynnal yr oedfaon yn ystod y mis diwethaf: Y Parchedig Cledwyn Williams, Y Parchedig Mererid Mair, Mrs Ceri Dart, a'r Parchedig Ddr Elwyn Richards. Cafwyd gwasanaethau bendithiol dros ben.

**Angladd**
Cynhaliwyd angladd y ddiweddar Megan Wyn Phillips ddydd Iau, Chwefror 22, yn Amlosgfa Bangor. Gweinyddwyd gan y Parchedig Robin Coetmor Williams, a thalwyd teyrnged i Megan gan ei mab, Dafydd. 'Roedd cynrychiolaeth deilwng o'r aelodau yn bresennol i dalu'r gymwynas olaf i un hoffus dros ben.

**Profedigaeth**
Daeth profedigaeth fawr i ran Mrs Jean Ogwen Jones a'r teulu ym marwolaeth hynod o sydyn mab yng nghyfraith Jean, sef Andrew, gŵr Manon. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf atoch i gyd, gan weddïo y cewch nerth Duw i'ch cynnal a'ch cadw drwy ryferthwy'r storm sydd wedi eich amgylchynu, ac y bydd "yr hedd na all y stormydd garwaf ei flino byth" yn eich cofleidio.

**Y Gymdeithas**
Er gwaethaf rhybuddion Proffwydi'r Tywydd am eira a llifogydd, daeth criw teilwng i'r Festri i gymryd rhan mewn cwis hwyliog a ddyfeiswyd gan Nia, ein Trysorydd.

Cawsom ein rhannu'n bedwar grŵp i ateb chwe' rownd o gwestiynau amrywiol a difyr. Roedd Nia wedi mynd i drafferth mawr i baratoi rhywbeth at ddant pawb ac, yn ôl y chwerthin a'r tynnu coes, daeth yn amlwg bod y timau yn mwynhau noson o adloniant gwerth chweil.

Ar ddiwedd y Cwis, diolchodd Neville i Nia am ei gwaith caled, a chawsom gyfle i ymlacio dros baned a bisgedi a baratowyd gan Ceri ac Olwen.

Carys ac Anwen fydd yn gyfrifol am y baned yn nghyfarfod mis Mawrth, pryd y disgwyliwn Mr. Glyn Tomos i ddod atom. Testun ei sgwrs fydd 'Deffro i Fore Gwahanol'. Edrychwn ymlaen at noson ddifyr arall. [Barbara Jones (Ysgrifennydd)]

**Cofion**
Dymuniadau gorau i'r aelodau hynny sy'n methu bod gyda ni yn yr oedfaon oherwydd llesgedd – 'rydym yn meddwl amdanoch, ac yn anfon ein cofion cynhesaf atoch.

**Cyhoeddiadau'r Sul – am 10 y bore oni nodir yn wahanol:**
Mawrth 17: Mr Richard Morris Jones
Mawrth 24: Y Parchedig Anna Jane Evans (5)
Mawrth 31 (Sul y Pasg): Oedfa'r Ofalaeth o dan ofal y Gweinidog.
**Cymun**
Ebrill 7: Y Parchedig Huw Pritchard (5)
Ebrill 14: Y Parchedig Trefor Lewis (5)
Ebrill 21: Mrs Eirlys Williams
Ebrill 28: Y Gweinidog

Cofiwch am y gwasanaeth gwrando dros y ffôn – cysylltwch â Walter (601167) i gael y rhifau perthnasol.

## Eglwys Crist, Glanogwen

**Clwb Cant yr Apêl**
**Enillwyr mis Chwefror:**
£30 – Rhif 40 – Mrs Mair Griffiths
£25 - 108 – Hannah Morgan
Llongyfarchiadau i'r enillwyr! Tynnir y gwobrau lwcus yn yr Eglwys ar y bore Mercher olaf o bob mis yn ystod y baned; croeso cynnes i bawb.

**Rhybudd**
Mae blwyddyn y Clwb Cant yn dod i ben ddiwedd mis Medi, ac mae angen rhywun i'w drefnu a'i redeg os am ddal ati. Byddai'n drist iddo ddod i ben gan iddo ddod â rhai miloedd i gronfa'r Apel dros y 5 mlynedd ddiwethaf.
Os am fwy o fanylion, cysylltwch a Barbara ar 600530.

**Bore Coffi**
Diolch am bob cefnogaeth i'r Bore Coffi er budd yr eglwys ar Ddydd Sadwrn, Chwefror 24. Diolch i swyddogion Capel Jerusalem am drefnu'r ystafell ar ein cyfer.

**Amlenni Rhodd**
Diolch i bawb am eu cyfraniadau cyson dros y flwyddyn trwy'r amlenni wythnosol – mae'r cyfraniadau hyn yn holl bwysig tuag at gostau'r eglwys. Cofiwch hefyd gysylltu os oes gennych amlenni ac yn methu mynychu'r eglwys ar hyn o bryd, gallwn alw amdanynt.

Mae sawl un wedi holi ynglŷn â thalu trwy Drosglwyddiad Banc os yn methu dod i'r gwasanaethau. Rhif Cyfrif Glanogwen yn y Banc Natwest yw 51-61-28 06306284. Gellir gwneud un taliad neu sefydlu Taliad Sefydlog (Standing Order) ar gyfer bob mis neu unrhyw batrwm arall.

Mae'r Gronfa Apel yn dal ymlaen, ond mae angen trefnu gweithgareddau codi arian yn gyson, byddai'n braf clywed am unrhyw rai sydd â diddordeb mewn trefnu rhywbeth i helpu'r achos, gan fod llawer mwy o waith atgyweirio i'w wneud, ond fawr o arian yn y coffrau. Mae'r safle GoFundMe yn dal ar gael ar gyfer unrhyw roddion. Diolch yn fawr.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb o'n haelodau a'n hanwyliaid sydd yn wael neu'n gaeth i'w cartref, hefyd i bawb sydd yn galaru am berthnasau annwyl.

Cofiwch adael i ni wybod os am gael ymweliad neu Gymun Cartref.

**Gwasanaethau dros gyfnod y Pasg**
**Mawrth 24 – Sul y Blodau**
Cymun Bendigaid am 11.00
**Mawrth28 -Dydd Iau Cablyd**
Cymun y Swper Olaf am 7.00 yr hwyr
**Mawrth 29 – Gwener y Groglith**
Dioddefaint y Groes am 2.00 y prynhawn
**Mawrth 31 - Sul y Pasg**
Cymun Bendigaid am 11.00

Pob Sul – Cymun Bendigaid am 11.00

Pob Bore Mercher am 10.30 y bore – Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi, a phaned a sgwrs i ddilyn.

Croeso cynnes fel arfer i bawb i'r holl wasanaethau.

**Manylion cyswllt**
Gellir cysylltu a'r ficer, y Parchedig Ddoctor Gareth Lloyd ar 01248 361521 ar unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys, gan gynnwys trefnu priodas, angladd neu fedydd.

Hefyd mae'r Parchedig Sara Roberts yn offeiriad cynorthwyol ac ar gael ar 07967652981.













# YSGOL ABERCASEG



**Dydd Miwsig Cymru**
Roedd pawb wrth eu boddau ar Ddydd Miwsig Cymru. Roedd digon o gyfleoedd i wrando ar gerddoriaeth Cymraeg gan lu o artistiaid a bandiau Cymraeg  a chafodd pawb y cyfle i werthuso'r caneuon a dod o hyd i hoff gan bob dosbarth!

**Siaradwr Cymraeg Yr Wythnos**
Er mwyn hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg yn yr ysgol rydym wedi croesawu Dan y Ddraig i bob dosbarth. Mi fydd un plentyn o bob dosbarth yn cael eu dewis fel Siaradwr Cymraeg yr wythnos ac felly yn cael y cyfle i fynd â Dan y Ddraig adref dros y penwythnos gan dynnu lluniau neu ysgrifennu am eu hanturiaethau. Rydym yn edrych ymlaen at weld ac i glywed yr holl hanesion!



**Christingle**
Diolch yn fawr unwaith eto i'r Parchedig Sara Roberts am ymweld â phlant Blwyddyn 1 a 2 er mwyn cwblhau gweithgareddau Christingle. Roedd y plant wedi mwynhau yn arw cael cyfle i ddysgu am y traddodiad a mynd ati i greu!

**Ffarwelio**
Rydym wedi ffarwelio a Miss Erin Davies  a fu'n aelod gwerthfawr o staff yr ysgol. Diolch iddi am ei chefnogaeth a'i gwaith caled wrth gefnogi'r disgyblion. Pob dymuniad da iddi!

# Diwedd Cyfnod Cadwyn Ogwen




Wrth i Gadwyn Ogwen ddosbarthu archebion lleol am y tro olaf ar 29 Chwefror, hoffai Partneriaeth Ogwen fachu ar y cyfle i edrych yn ôl ar brosiect sydd wedi golygu llawer i fusnesau lleol a chwsmeriaid lleol dros y pedair blynedd diwethaf.

Dechreuodd Cadwyn Ogwen fel ymateb i'r pandemig yn 2020. Diolch i grant Arfor, bu modd i Bartneriaeth Ogwen weithio gyda busnesau lleol i ddod o hyd i ffordd i ni eu helpu i gyrraedd cwsmeriaid pan nad oedd eu llwybrau arferol i'r farchnad ar gael. Roedd hefyd yn fendith i gwsmeriaid a oedd yn hunan ynysu, nid yn unig i gael mynediad at gynnyrch lleol, ond hefyd i gael cysylltiad â'r gymuned yn ystod cyfnod mor anodd.

Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran yn y camau cynnar, yn enwedig y cynhyrchwyr, Fferm Moelyci, Dab Designs a greodd y wefan cyntaf ar fyr rybudd, ac i'n gwirfoddolwyr gwych a fu'n helpu gyda danfoniadau.

Fe wnaeth Cadwyn Ogwen ddatblygu dros amser i gynnwys siop 'dros-dro' ar y Stryd Fawr yn ogystal â sioeau cynhyrchwyr a marchnadoedd. Mae ein cynhyrchwyr hefyd wedi elwa o fentora arbenigol trwy Lafan.

Tua diwedd 2022, symudodd Cadwyn Ogwen o Foelyci i Laethdy Gwyn, ac mae wedi bod yn bleser gweithio gyda Carrie Rimes a gwylio Cosyn yn tyfu. Newidiwyd hefyd i blatfform Rhwydwaith Bwyd Agored a oedd yn caniatáu i ni weithio gyda phartneriaid newydd gan gynnwys Hwb Bwyd Dyffryn Nantlle a Phrifysgol Bangor i geisio cyrraedd cwsmeriaid ehangach.

Ers ei sefydlu, mae Cadwyn Ogwen wedi prosesu bron i 4,000 o archebion ar gyfer cwsmeriaid lleol ac wedi golygu fod cyfanswm o £90,000 wedi ei gadw yn yr economi leol. Mae wedi bod yn bleser gweithio gyda chymaint o fusnesau lleol dros y blynyddoedd diwethaf, a diolchwn iddynt oll am gymryd rhan.

Wrth gwrs, mae'r cynhyrchwyr gwych sydd wedi bod yn rhan o Gadwyn Ogwen yn parhau i gynnig cynnyrch arbennig, ac os hoffech gael gwybodaeth am ble y gallwch brynu cynnyrch yn lleol, cysylltwch â cadwyn@ogwen.org

## Cyngor Cymuned Bethesda

Cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol o'r Cyngor ar nos Iau, 29ain o Chwefror yn rhithiol drwy Zoom.

**System Unffordd Pant Glas**

Derbyniwyd cais gan y Cynghorydd Rheinallt Puw a Chyngor Gwynedd i ofyn am farn y Cyngor Cymuned ar sefydlu system unffordd ar hyd Pantglas. Penderfynwyd yn ein cyfarfod diwethaf fod y Cyngor yn cefnogi mewn egwyddor, ond yn awyddus iawn i weld beth yw barn y trigolion lleol. I gyflwyno eich barn neu am fwy o wybodaeth am y cynlluniau o dan sylw, yna cysylltwch â'r Clerc ar cyngorbethesda@ogwen.org neu 01248 602131.

**Peintio llinellau parcio – Maes parcio ger y Siôr**

Nodwyd fod y Cyngor Cymuned wedi gwneud cais i Gyngor Gwynedd i ail beintio'r llinellau yn y maes parcio ers mis Mehefin 2023. Nid yw'r Cyngor Cymuned wedi derbyn unrhyw ymateb i'r cais, hyd yn hyn.

**Safonau ffyrdd a phalmentydd**

Cadarnhaodd y Clerc ei bod wedi derbyn llawer o gwynion gan drigolion lleol am safonau'r ffyrdd a phalmentydd o fewn Bethesda, yn enwedig ar Ffordd Abercaseg, y Stryd Fawr ac Allt Penybryn. Penderfynwyd y bydd y Cyng. Einir Williams yn adrodd i Gyngor Gwynedd am Ffordd Abercaseg, a'r Clerc i adrodd am y ddwy ardal arall.

**Sedd Wag**

Adroddwyd fod sedd wag ar y Cyngor Cymuned – sedd Ward Rachub. Os hoffech chi wneud gwahaniaeth i'ch cymuned leol yna cysylltwch â'r Clerc am fwy o wybodaeth – ebost cyngorbethesda@ogwen.org neu 01248 602131.

**Rhoddion Blynyddol**

Yn dilyn hysbysiad rhoddion y Cyngor, nodwyd fod llawer o fudiadau lleol wedi derbyn rhodd. Dyma restr o'r mudiadau oedd yn llwyddiannus:

| | |
|---|---|
| Llais Ogwan | £500.00 |
| Clwb Camera Dyffryn Ogwen | £150.00 |
| Eglwys Crist Glanogwen | £400.00 |
| Gwyl Afon Ogwen | £200.00 |
| Clwb Criced a Bowlio | £500.00 |
| Apel Cronfa Cyfle I bawb yr Urdd | £100.00 |
| Dawns i Bawb | £100.00 |
| Ambiwlans Awyr Cymru | £500.00 |
| Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen | £150.00 |
| Carnifal Bethesda | £750.00 |
| Theatr Bara Caws | £300.00 |
| Sefydliad y Merched, Carneddi | £50.00 |
| CFFI Eryri | £50.00 |
| Radio Ysbyty Gwynedd | £100.00 |
| Urdd Gobaith Cymru | £100.00 |
| Sioe Frenhinol Sir Caernarfon 2025 | £250.00 |
| Hwb Ogwen | £500.00 |
| Balchder Bro | £1000.00 |
| Caban Gerlan | £1500.00 |



## Neges Bwysig i Ferched y Dyffryn

Mae Claire Evans, o Tan y Graig hefo neges pwysig i ferched y Dyffryn. Mae Claire yn gweithio i'r gwasanaeth sgrinio am gancr y fron yn LLandudno, ac mae hi bellach wedi derbyn diagnosis o gancr y fron ei hun. Dywed Claire;

"Cancr y fron ydy'r cancr mwyaf cyffredin yn y DU, hefo un ddynes yn derbyn diagnosis bob 10 munud. Mae oddeutu 55,000 o ferched, a 400 o ddynion yn cael diagnosis bob blwyddyn yn y DU.

Fel un sydd yn gweithio yn y maes, ac wedi derbyn diagnosis o gancr y fron fy hun, dwi'n annog pawb, ond yn enwedig merched, i fod yn wyliadwrus am symptomau cancr y fron, ac i archwilio eu hunain yn rheolaidd.

"Y cynharaf mae cancr yn cael ei ddarganfod y gorau, ac mae'n bwysig ymweld â'r doctor yn syth os ydych yn canfod lwmp, neu newid mewn siap. Gellir cael mwy o wybodaeth am sut i hunan archwilio o wefan breastcancernow.org "

Gan ddymuno'n dda i Claire gyda'i thriniaeth, a gobeithio daw gwellhad buan.


**Londis**
BETHESDA
01248 605566
Archfarchnad hwylus a Swyddfa Bost Gwasanaeth personol gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr 7 diwrnod yr wythnos

**TEMPLE MORRIS A'I FAB**
Pob Math o Waliau Cerrig, Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531 | 01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com





**MODURON PANDY Cyf.**
UNIPART CAR CARE CENTRE
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY

**JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd.**
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs: 01248 601754
07770 568743 (symudol)

# YSGOL DYFFRYN OGWEN



**Sioe Gerdd 'Olifar'**

Yn ystod mis Rhagfyr, cynhyrchwyd sioe gerdd 'Olifar' - Addasiad o Nofel Oliver Twist (Charles Dickens) - gan Ysgol Dyffryn Ogwen.

Dyma'r sioe gerdd gyntaf I gael ei chynnal ers rhai blynyddoedd a braf oedd gweld gymaint o bobl ifanc yn cymryd rhan ac yn derbyn profiadau wrth berfformio a chynhyrchu sioe gerdd ar lwyfan.

Cynhyrchydd y sioe oedd Angharad Llwyd Beech a'r Cynhyrchydd Cerddorol oedd Mr Andrew Thomas, Pennaeth Cerdd. Diolchodd y Pennaeth, Mr Dylan Davies, i'r cyfarwyddwyr a'r holl staff a oedd wedi cynorthwyo mewn pob math o ffyrdd i sicrhau bod graen ar y sioe - o gynnal ymarferion, canfod a chreu dillad a phropiau, paratoadau technegol, casglu nawdd, cadw trefn ar y rhai sydd yn perfformio ac wrth gwrs i'r rhai sydd wedi neidio i sawl bwlch i sicrhau fod addysg yn parhau yn yr ysgol yn ystod y cyfnod paratoi.



Yn y Rhaglen, diolchodd y Prifathro hefyd I Mr Eurwyn Hughes y Gofalwr, a Mr Andrew Speddy ein technegydd aml dalentog am gael trefn ar y neuadd, y sain, y goleuo, yr adnoddau digidol ac am gael trefn ar y llwyfan am y tro cyntaf ers degawd a mwy! Diolch yn olaf i'r criw o bobl ifanc sydd wedi bod mor barod i gymryd rhan, yn perfformio neu wrth gwrs yn helpu efo'r gwaith technegol a'r gwaith cefn llwyfan."

Braf oedd gweld sioe lwyddiannus a oedd yn amlygu talentau ifanc lleol. Prysured y dydd pan fydd sioe gerdd lwyddiannus arall ar lwyfan Ysgol Dyffryn Ogwen!

---






**Clwb Darllen Difyr**

Mae'r Clwb Darllen Difyr yn parhau i fynd o nerth i nerth dan arweiniad Mrs Lowri Owen yn Adran y Gymraeg. Dyma fuddugwyr y ddwy gystadleuaeth ddiweddaraf, y gyntaf i greu nod llyfr diddorol a'r llall i recordio darlleniad o hoff lyfr darllen.

Nod Llyfr:
1af – Lloer Davies ac Emmanuel Adeyami
2il – Ffion Davies a Lauren Davies
3ydd – Efa Williams, Lowri Owen ac Elliw Sherlock

Recordio Darlleniad:
1af – Martha Meredydd
2il – Bleddyn Evans ac Ella Adeyami
3ydd – Cian Morris ac Oscar Thomas

Llongyfarchiadau gwresog i bob un ohonoch a daliwch ati i ddarllen.

**Ymweliad â'r Ysgwrn**

Yn ddiweddar, cefais ymweld âr Ysgwrn, Trawsfynydd gyda'r Adran Gymraeg. Roedd cael mynd yno'n brofiad bythgofiadwy. Ar ôl cyrraedd yno, cawsom groeso cynnes gan y staff anhygoel. Aeth Maryl a criw i fyny i'r Ysgwrn tra bod y gweddill ohonom ni'n cael cyflwyniad am hanes cefndirol Hedd Wyn a'i deulu. Gan ein bod yn gwneud gwaith arno yn y gwersi Cymraeg, roeddem yn gwybod ychydig yn barod. Er hyn, dysgais lawer drwy fynd ar y trip e.e. bod ei neiod wedi bod yn byw yno nes i Barc Cenedlaethol Eryri fynd yno a cymryd drosodd, gan bod y ddau wedi marw. Hefyd, nid oeddwn yn gwybod eu bod nhw wedi colli pedwar plentyn ar enedigaeth a dau blentyn arall yn ifanc iawn. Yn y prynhawn, cawsom fynd gyda Maryl i'r amgueddfa a'r Ysgwrn wrth i'r criw arall aros gyda Cassin. Yno, roedd rhai o'r cadeiriau a enillodd mewn amrywiaeth o eisteddfodau, lluniau o'r teulu dros y blynyddoedd ac hyd yn oed y papur wal oedd ganddyn nhw yn y tŷ!

'Roedd yr Ysgwrn dipyn llai nag oeddwn yn ei ddisgwyl; roedd yr hogiau i gyd yn rhannu llofft ac roedd rhaid i'r genod i gyd rannu gwely ar ben y grisiau. Dwi'n teimlo bod mynd yno wedi bod yn beth llesol a manteisiol iawn i ni gan bod ni'n gallu gweld yr amodau byw yno ac roedd hynny yn help i ni ddeall mwy amdan eu bywyd yn y cyfnod. Cyn mynd, nid oeddwn yn deall pam fod ei fam mor wrthwynebol iddo ef neu un o'i frodyr ymuno yn y rhyfel, ond ar ôl yr ymweliad des i ddeall ei safbwynt hi a gweld fod rhain yn bobl go iawn ac yn deulu clós.

'Dwi wir yn meddwl dylai pawb fynd I'r Ysgwrn i weld ac i gofio nid yn unig am Hedd Wyn, ond am yr holl ddynion ifanc a gollodd eu bywydau yn y rhyfel.

**Ela Williams, Blwyddyn 9**



# Gair neu ddau

**John Pritchard**

## Nyfain

Un o freintiau mwyaf bywyd ydi cael enwi babi bach newydd. Bydd rhai rhieni'n gwybod yr enw ymhell cyn y geni. Bydd eraill yn pendilio rhwng dau neu dri enw am ddyddiau cyn penderfynu'n derfynol. Os cofiaf yn iawn, un enw'n unig oedd wedi ei benderfynu'n bendant gennym ni cyn geni'r plant. Ond gan mai enw merch oedd hwnnw, wnaethon ni ddim ei roi ar yr un dystysgrif geni. Roedd o'n enw del; a chan nad fi feddyliodd amdano mi fentraf ddweud ei fod yn enw clyfar a fyddai wedi bod yn hynod addas o fewn ein teulu ni.

Nid 'Nyfain' mohono. Ond dyna ydi enw ein hwyres newydd a aned ddechrau Rhagfyr. Roedd yn enw dieithr iawn i mi. Wyddwn i ddim mai enw santes o'r bumed ganrif oedd o na'i bod yn bosibl mai'r santes honno, Nyfain ferch Brychan Brycheiniog, a roes yr enw 'Nefyn' i'r pentref yn Llŷn. Dywedir iddi gael ei geni yn y flwyddyn OC 458. O gofio bod hynny dros hanner canrif cyn geni Dewi Sant, nid syndod na wyddom fawr amdani.

Prin iawn yw ein gwybodaeth bendant am Dewi a'i gyfoedion a'i gydweithwyr. Chwedl a dychymyg sy'n gyfrifol am o leiaf ran o'r darlun sydd gennym am yr enwocaf o'r hen saint hyd yn oed. Ond yr un peth a wyddom am y bobl hyn a roes eu henwau i lannau ac eglwysi led led ein gwlad yw mai pobl y Ffydd oedden nhw. Pobl yr Efengyl oedden nhw. Pobl Iesu Grist oedd dynion fel Cybi, Illtud, Beuno, Deiniol, Padarn a Dewi. Felly hefyd ferched fel Non, Gwenllian, Dwynwen, Melangell, Tydfil ... ie, a Nyfain.

Pwy, tybed, oedd yr anwylaf o'r rhain? Pwy oedd y mwyaf caredig? Y mwyaf huawdl? Y byrraf ei dymer? Pwy oedd y gweithwyr caletaf? Y mwyaf diog? Y mwyaf poblogaidd? Pwy ohonyn nhw oedd yn eiddigeddus o lwyddiant eraill o'r criw? Pwy oedd y mwyaf doniol? Y mwyaf duwiol? Y dewraf? Y mwyaf dihyder? Pwy gâi drafferth i ddal ati mewn gweddi? Pwy ellid dibynnu arno i annog y gweddill? Duw yn unig a ŵyr.

Yr un peth a wyddom ydi mai cyhoeddi a lledaenu'r Efengyl oedd byrdwn mawr y bobl hyn. A rhyfeddod pethau ydi'r ffaith ein bod yn gwybod mai'r hyn a rannwyd ganddyn nhw oedd y newydd da am fywyd a marwolaeth ac atgyfodiad Iesu Grist. Mi wyddom hynny am mai'r un fu neges yr Eglwys o'i genedigaeth hithau hyd heddiw. Yr un fu'r Ffydd o oes i oes. Yr un ydyw, a'r un a fydd hefyd am fod yr Efengyl yn ddigyfnewid, a hynny am fod Iesu Grist ei hun yn ddigyfnewid. I rai sy'n mynnu mai gwreiddioldeb a newydd-deb sy'n rhoi gwerth i bob syniad ac egwyddor, o bosib mai ei chysondeb yw gwendid y Ffydd. Ond i Gristnogion, y ffaith nad yw'r Efengyl yn newid yn ôl ffansi'r oes ond ei bod yn dal i gynnig yr un bywyd a'r un gobaith yng Nghrist o genhedlaeth i genhedlaeth yw ei rhyfeddod a'i gogoniant. A'r argyhoeddiad hwnnw sy'n gwneud i bobl y Ffydd ddyheu a gweddïo y daw cenhedlaeth Nyfain fach a'i thebyg i glywed a chofleidio'n gynnar yn eu bywydau Efengyl y bywyd newydd yng Nghrist.


STEPHEN JONES
TREFNWR ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
**Ebost:** stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com


# Nyth y Gân



Buarthau'r Gyrn

Llun: Nigel Beidas www.cofnodicorlannau.org

### BUARTHAU MYNYDD

Y niwlog, frwynog fryniau a ddenodd
Ddynon draw i'w llethrau,
Yno i lunio corlannau
Yn braff a thwt i barhau.

### Y GWANWYN

Yn llawn daw nerth i'r llwyni yn gynnar
Â'i ganu a'i egni,
A'i luniau eto 'leni
Yno'n awr i'n deffro ni.

### YR HEN SIED

*(Erstalwm byddai'r chwarelwyr a chrefftwyr eraill yn arfer cael cwmni ei gilydd yn sied yr ardd i gael sgwrs ar Sadyrnau.)*

Roedd siediau yn y gerddi twt
A godwyd ynddynt wrth y clwt,
Ac er mor syml ydoedd hon
Bu blas cwmnïaeth dan ei bron.

Bu geiriau'n llifo dan ei tho
Wrth sôn am natur yn y fro
Ac am hen gymeriadau gynt
A wyddai'n iawn am werth y bunt.


Roedd ambell sied yn goleg bro
A thrafod brwd o dan y to,
A phleser mawr a roddai hi
Heb dderbyn unrhyw fath o ffi.

Gwybodaeth ddaeth o le di-nod,
O'r hen sied fach enillodd glod;
O enau'r hen gymdogion daeth
Y geiriau a gyfrannodd faeth.

**Dafydd Morris**



# CROESAIR



**AR DRAWS**

1 Cadair, soffa, stôl (3)
3 Yn eco panorama brig y mynydd (4)
7 Cri fod ôl canmoliaeth wrth frolio (8)
8 Archwiliad meddygol (4)
9 Incwm y siop (11)
11 Mewn dal y funud y mae ceisio cael hyd i'r ateb (6)
13 Go-lew (6)
14 Trin pawb yr un fath (11)
17 Yn ddiarhebol mae'r wlad yn gryfach na'r arglwydd (4)
19 Un o'r piwiaid (8)
20 Fel 7 Ar Draws mewn oedfa (4)
21 Brenin y ffin (3)

**I LAWR**

1 Da medd rhai, ond sal medd eraill yw'r pryd yma (5)
2 Llinach brenhinol o dras Cymreig (9)
3 Dim yn glên na dymunol (3)
4 Lladd gwair ers talwm (7)
5 Cau ei gôt yn dynn y bu Tom am ei bod mor oer (6)
6 Hanner glöyn byw, tybed (4)
10 Cyfarch yn glên ar yr heol (5,4)
12 Dyma mae'r ceffyl bach yn ei wneud i ni'n dau – *hwiangerdd* (2,5)
13 Goronwy bach yn rhoi hedyn caled i'w blannu (6)
15 " -'-  - -' " bach a'i wyneb purddu, Yn yr efail yn prysur chwythu" – cân *werin* (2,2)
16 Yr wyt mewn gradd coleg ac yn cael pryd i ddathlu (5)
18 Pob un ohonoch – *clasurol* (3)

Atebion erbyn 5ed Ebrill 2024 **fan bellaf** *(ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach)* i 'Croesair Chwefror', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD






Dilynwch Llais Ogwan ar X
**@Llais_Ogwan**

**ATEBION CROESAIR CHWEFROR 2024**

**AR DRAWS** 1 Tamaid, 5 Ehed, 9 Ebychiad, 10 Ymlaen, 11 Dirgelwch, 12 Chwipio, 15 Canfod, 18 Brawddegu, 20 Nyrsio, 22 Ro/wmania, 23 Ufudd, 24 Banana

**I LAWR** 2 Apelio, 3 Arysgrif, 4 Deial, 6 Hwyl, 7 Doleri, 8 Ydych Chi, 13 Iorddonen, 14 Adborth, 16 Awyrlu, 17 Ogfaen, 19 A'r Mab, 21 Syllu

Pump ymgais wedi cael 5 Ar Draws yn anghywir. 'Ehed' oedd yr ateb cywir, nid 'ehud'.
Y camgymeriadau eraill oedd 'awyrfu' yn lle 'awyrlu' (16 I Lawr), ac 'igfaen' yn hytrach na'r ateb cywir 'ogfaen' (17 I Lawr).

Gan y canlynol y cafwyd atebion hollol gywir y tro yma : Gareth Oliver, Dulcie Roberts, Tregarth;
Judith Hughes, Llangoed; Ann Morris, Doris Shaw, Gaynor Elis-Williams, Bethesda;
John Ffrancon Griffith, Abergele; Myrddin Williams, Capel Uchaf, Clynnog; J.R.Jones, Llanllechid;
Medi Michael, Bangor; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Iona Williams, Llanddulas; Jean Vaughan Jones, Dilys Parry, Rhiwlas

Ond ar y brig y tro hwn y mae Myrddin Williams, Bryscyni Isaf, Capel Uchaf, Clynnog, Gwynedd LL54 5DH, ac iddo ef yr aiff y wobr. Da iawn chi.